Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Symudiadau rheoledig

# Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion

Mawrth 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** 1

**Cefndir** 1

**Prif ganfyddiadau** 4

**Argymhellion** 7

**Beth yw symudiad rheoledig?** 8

Diffiniad symudiadau rheoledig 8
Pa bryd nad yw symudiad rheoledig yn symudiad rheoledig? 9
Nodweddion disgyblion 10

**Pa mor effeithiol mae awdurdodau lleol yn cynllunio, cynorthwyo a monitro symudiadau rheoledig?** 13

Polisi ac arweiniad 13
Rôl yr awdurdod lleol 15
Trefniadau teithio 16
Trefniadau ariannu 17
Anghenion addysgol arbennig 17
Addysg cyfrwng Cymraeg 18
Rôl yr uned cyfeirio disgyblion 19
Olrhain a monitro 19

**Pa mor effeithiol mae ysgolion yn cynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl symudiad rheoledig?** 22

Gweledigaeth ac ethos 22
Dulliau cynhwysiant ysgol gyfan 23
Rhaglenni cymorth bugeiliol 26
Profiadau dysgu 28
Cyfleusterau cynhwysiant mewn ysgolion 28

**Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i rieni, gofalwyr a disgyblion** 32

**Sail y dystiolaeth** 35

**Geirfa** 36

**Cyfeiriadau** 38

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad yn archwilio'r defnydd o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion, a'u heffeithiolrwydd o ran cynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu ymddieithrio. At ddibenion yr adroddiad, mae'r term symudiad rheoledig yn cyfeirio at gytundeb gwirfoddol rhwng ysgolion, rhieni neu ofalwyr a disgybl i alluogi'r disgybl i symud i ysgol arall mewn modd rheoledig.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Efallai y bydd o ddiddordeb i'r rhai sy'n gweithio gydag ysgolion ffydd trwy awdurdodau esgobaethol. Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o arfer effeithiol i'w hystyried gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Bwriad y rhain yw annog awdurdodau lleol ac ysgolion i fyfyrio ar eu harfer bresennol yn ymwneud â symudiadau rheoledig.

## Cefndir

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac yn ymddwyn a chyflawni'n dda. Fodd bynnag, am ystod o resymau, mae angen cymorth ychwanegol neu benodol ar ychydig o ddisgyblion i gadw eu lle yn eu hysgol gartref a chyflawni eu potensial. Mae disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd a'r rhai sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol, ymhlith ein disgyblion mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Yn ôl y gyfraith, gall disgybl gael ei wahardd yn barhaol neu am gyfnod penodol o ysgol a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion (UCD) os yw'n torri'r polisi ymddygiad yn ddifrifol neu os yw'n peri risg i addysg neu les disgyblion eraill. Rhaid i bob gwaharddiad, ni waeth pa mor fyr ydyw, gael ei gofnodi'n ffurfiol. Mae gwaharddiadau answyddogol, nad ydynt wedi'u cofnodi'n waharddiad parhaol neu am gyfnod penodol, yn anghyfreithlon p'un a ydynt yn digwydd â chytundeb rhieni neu ofalwyr ai peidio. Mae symudiad rheoledig yn symudiad gwirfoddol sydd wedi'i gynllunio'n ofalus o un ysgol i un newydd, a gallai fod yn ddewis arall addas pan fydd disgybl mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol, yn peri risg i les pobl eraill neu'n gwrthod mynychu'r ysgol. Yn wahanol i waharddiad parhaol, mae symudiad rheoledig yn mynnu caniatâd pawb dan sylw, ac nid oes iddo unrhyw statws cyfreithiol ar hyn o bryd.

Yn 2015-2016, roedd 109 o waharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir ac UCDau yng Nghymru. Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir ac UCDau wedi parhau'n sefydlog, sef 0.2 o waharddiadau fesul 1,000 o ddisgyblion

am y pum mlynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2017). Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i gasglu data ar amlder na llwyddiant symudiadau rheoledig ar lefel leol neu genedlaethol. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw wybodaeth ddibynadwy ar gael yn genedlaethol ynghylch nifer y disgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig na llwyddiant y strategaeth hon fel dewis arall i'w gwahardd o'r ysgol.

Ym Mawrth 2016, comisiynodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Oes a Sgiliau ar y pryd yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb i ategu gweithgarwch presennol yn y maes hwn, ac i ddatblygu'r dull o hyrwyddo presenoldeb ysgol a gwella ymddygiad yn y dyfodol (Reid, 2008). Roedd hyn yn rhannol oherwydd niferoedd uchel y gwaharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd. Yn 2005-2006, cofnodwyd 451 o waharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Roedd hyn yn cynrychioli 1 gwaharddiad parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion (Reid, 2008). Gwnaeth yr adroddiad hwn 19 o argymhellion craidd i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr angen am arweiniad ar ddefnyddio symudiadau rheoledig.

Er mwyn ymateb i'r argymhellion craidd a wnaed yn adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, lluniodd Llywodraeth Cymru ddogfen arfer orau i gynorthwyo â'r defnydd o symudiadau rheoledig. Mae'r arweiniad, sef '*Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol'* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011), yn darparu dewisiadau amgen realistig i waharddiad parhaol, a'i nod yw cael gwared â defnyddio gwaharddiadau answyddogol fel dull o reoli ymddygiad heriol. Mewn achosion o waharddiadau answyddogol, mae ysgolion yn gofyn i ddisgyblion aros gartref am gyfnod amhenodol, er na chaiff ei gofnodi'n ffurfiol fel gwaharddiad ar gofnod ysgol y disgybl. Mae'r adroddiad yn amlygu'r gofyniad i les y disgybl barhau'n ganolog ac i'r holl benderfyniadau yn ymwneud ag addysg disgybl gael eu gwneud yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP: Unicef, 1990) a'r saith nod craidd yn Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004).

Yn 2016, adolygodd Llywodraeth Cymru ei harweiniad i ysgolion, UCDau, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn ymwneud â chynhwysiant a chymorth disgyblion i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn cryfhau rôl awdurdodau lleol wrth gydweithio ag ysgolion i hyrwyddo cynhwysiant a chynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio neu gael eu gwahardd. Mae'r arweiniad yn hyrwyddo'r angen i ysgolion ac awdurdodau lleol:

- adnabod anawsterau'n gynnar a darparu cyfeiriadau addas ac amserol
- defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol yn gyfrifol ar gyfer yr holl ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd
- rhoi'r gorau i dynnu plant o'r ysgol yn wirfoddol mewn modd negyddol, lle y rhoddir pwysau ar rieni a gofalwyr i dynnu eu plant o'r ysgol er mwyn osgoi cael eu gwahardd
- hyrwyddo symudiadau rheoledig fel modd o ostwng gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau am gyfnod penodol

Rhwng 2012 a 2016, cyhoeddodd Estyn gyfres o adroddiadau ar hyrwyddo presenoldeb, gwella ymddygiad, ac addysg heblaw yn yr ysgol, y mae pob un ohonynt yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am symudiadau rheoledig. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr argymhellion a wneir yn yr adroddiadau hyn.

- Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion (Estyn, 2012)
- Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd (Estyn, 2014)
- Arfer effeithiol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd (Estyn, 2015a)
- Addysg Heblaw yn yr Ysgol: arolwg arfer dda (Estyn, 2015b)
- Addysg heblaw yn yr ysgol (Estyn, 2016)

# Prif ganfyddiadau

1 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae symudiadau rheoledig yn cynnig dechrau newydd mewn ysgol newydd i ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae anghenion a lles y disgybl wrth wraidd pob trafodaeth yn ymwneud â symudiadau rheoledig a'r penderfyniadau a wneir. Fodd bynnag, nid yw symudiad rheoledig yn rhoi'r un amddiffyniad cyfreithiol i ddisgyblion â'r rhain sy'n cael eu gwahardd o ysgolion yn barhaol. Er enghraifft, nid oes gan ddisgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig hawl awtomatig i ddarpariaeth addysg dros dro, hawl i apelio na chymorth â threfniadau ymarferol, fel cludiant.

2 Mae symudiad rheoledig yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n dda â disgyblion a'u teuluoedd, ac yn ei ddefnyddio'n strategaeth ymyrraeth gynnar.

3 Nid oes unrhyw brotocol cenedlaethol cytûn ar gyfer symudiadau rheoledig sy'n sicrhau bod disgyblion, pa le bynnag y maent yn byw, yn cael profiadau tebyg o symudiad ysgol cynlluniedig. O ganlyniad, mae gwahaniaethau nodedig yn y modd y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithredu ac yn monitro symudiadau rheoledig ledled Cymru. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yr arweiniad presennol i awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar symudiadau rheoledig yn agored i gamddehongli ac arferion gwahanol iawn.

4 Ers cyhoeddi'r arweiniad ar symudiadau rheoledig yn 2011 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011), mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cyflwyno protocolau priodol sy'n helpu disgyblion i symud yn llwyddiannus i ysgol newydd, yn hytrach na chael eu gwahardd. Yn gyffredinol, mae protocolau'n adlewyrchu arweiniad Llywodraeth Cymru a chyd-destun lleol yr awdurdod yn dda. Fodd bynnag, dros amser, mae mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi cyflwyno arferion newydd ac ychwanegol ers hynny, nad ydynt yn adlewyrchu ethos nac athroniaeth symudiad rheoledig yn ddigon da. Mae prosesau lleol ymadawiadau rheoledig neu drosglwyddiadau rheoledig yn cael gwared â hawl disgyblion i ddychwelyd i'w hysgol gartref, gan fod y symudiad yn wirfoddol. Yn gyffredinol, mae'r prosesau hyn yn anffurfiol a chânt eu cymhwyso'n anghyson ledled Cymru.

5 Er nad oes unrhyw wybodaeth ddibynadwy ar gael yn genedlaethol am nifer y disgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig, mae data a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r rhai sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA), yn fwy tebygol o fod yn destun symudiad rheoledig.

6 Yn aml, nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar yr asesiadau arbenigol sydd eu hangen arnynt i nodi anghenion dysgu a chyfathrebu sylfaenol yn ddigon cyflym, hyd yn oed pan gaiff yr anghenion hyn eu nodi yn eu rhaglen cymorth bugeiliol (RhCB). Mewn ychydig o achosion, nid ydynt yn cael yr addysgu a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt i gynnal eu lleoliad yn eu hysgol gartref neu i'w paratoi i drosglwyddo i ysgol newydd drwy symudiad rheoledig.

7 Mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn trosglwyddo i leoliadau mewn UCD neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Yn yr achosion hyn, er nad yw gwaharddiad parhaol yn cael ei orfodi, caiff symudiadau eu trefnu gan baneli lleoli awdurdodau lleol, fel arfer. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn cwblhau eu haddysg orfodol y tu allan i'r brif ffrwd.

8 Mae lleiafrif o ddisgyblion sy'n destun symudiad rheoledig o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid oes llawer o ddewis i'r disgyblion hyn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trosglwyddo i'r ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf, a all fod y tu allan i'w hawdurdod lleol. Ychydig iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a fu'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenorol sy'n parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

9 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae gan wasanaethau cynhwysiant weledigaeth glir i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed, ac i roi arweiniad defnyddiol i ysgolion ac UCDau ar ystod o faterion, gan gynnwys symudiadau rheoledig. Fodd bynnag, mewn ychydig o awdurdodau lleol, nid yw'r weledigaeth hon yn cael ei rhannu nac yn cael ei deall yn ddigon da gan rai ysgolion. Yn yr awdurdodau hyn, nid yw ysgolion cartref yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau yn ymwneud â chynorthwyo a monitro symudiad rheoledig ac, yn aml, nid ydynt yn cyflawni'r rôl hon yn ddigon effeithiol.

10 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae prosesau cadarn ar waith i gynorthwyo trosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion yn deg, nodi unigolyn allweddol i oruchwylio'r symudiad rheoledig a monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.

11 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno systemau i gasglu data ar symudiadau rheoledig, ac mae gan ychydig ohonynt systemau cadarn i olrhain cynnydd disgyblion yn y maes hwn. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw staff awdurdodau lleol yn defnyddio'r data hwn yn ddigon da i adolygu llwyddiant mentrau neu nodi tueddiadau a phatrymau ar lefel ysgolion neu'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae amseroldeb ac effeithiolrwydd cymorth targedig i ysgolion yn rhy anghyson ledled Cymru.

12 Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro p'un a yw symudiadau rheoledig yn llwyddiannus ai peidio yn ddigon cadarn ar ôl y cyfnod prawf. Mewn ychydig o achosion, pan fydd symudiadau rheoledig yn methu ar ôl y cyfnod prawf, yr ysgol sy'n derbyn sy'n gyfrifol am y broses wahardd neu ariannu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

13 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae gan swyddogion a phenaethiaid ddealltwriaeth drylwyr o'r prif rwystrau rhag symudiad rheoledig llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith negyddol ar brif ddangosyddion perfformiad, annhegwch tybiedig dosbarthiad symudiadau rheoledig, a diffyg gwybodaeth am anghenion addysgol disgyblion. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae swyddogion yn gweithio'n greadigol ag ysgolion er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â rhwystrau cydnabyddedig. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn cadw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ar gofrestr yr ysgol gartref tan ddiwedd y cyfnod prawf ar gyfer symudiad rheoledig.

14 Mae bron pob ysgol uwchradd yn defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol i ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r rhaglenni hyn yn addas i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl, mae eu defnyddio i awdurdodi oriau presenoldeb gostyngol yn yr ysgol yn amrywio ledled Cymru. Mewn ychydig o ysgolion, prif ddiben rhaglen cymorth bugeiliol yw tynnu disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n monitro defnydd rhaglenni cymorth bugeiliol neu'n herio defnydd amhriodol ohonynt. Mae hyn yn golygu nad oes gan lawer o awdurdodau lleol wybodaeth fanwl am faint o ddisgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd, faint ohonynt sy'n manteisio ar addysg ran-amser nac amseroldeb y trefniadau hyn.

15 Mae arweinwyr yn ceisio gwella profiadau disgyblion sy'n destun symudiad rheoledig trwy ddatblygu protocol clir ar gyfer symudiadau rheoledig rhwng ysgolion, ac yn cymhwyso trothwyon tebyg ar gyfer symudiadau rheoledig a chynllunio opsiynau'r cwricwlwm ar y cyd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

16 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw ysgolion cartref yn monitro cynnydd disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn yn ddigon cadarn. Mae'r wybodaeth a roddir i'r ysgol sy'n derbyn cyn ac yn ystod symudiad rheoledig yn gyfyngedig iawn ac yn aml yn anghyflawn. Mae'r wybodaeth yn canolbwyntio ar hanes disgybl o ran ymddygiad a phresenoldeb, ac yn rhoi ychydig iawn o fanylion i'r ysgolion sy'n derbyn am anghenion dysgu, cyfathrebu neu gymdeithasol y disgybl.

17 Mae gan bob awdurdod lleol drefniadau sefydledig i sicrhau y gall rhieni a gofalwyr fanteisio ar gyngor diduedd ar ystod o faterion yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig eu plentyn. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n hyrwyddo'r gwasanaeth hwn yn rhagweithiol wrth drafod symudiad rheoledig â rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, nad yw rhieni'n ymwybodol o'r gwasanaeth nes ei fod yn rhy hwyr neu mae anghydfod yn codi gyda'r ysgol.

18 Yn yr un modd â rhieni a gofalwyr, nid yw disgyblion yn gallu manteisio ar eiriolwyr annibynnol, fel mater o drefn, i gynrychioli eu buddiannau, eu helpu i ddweud yr hyn sydd ei eisiau arnynt neu sicrhau eu hawliau yn ystod symudiadau rheoledig. Mae hyn yn golygu nad yw llais ac anghenion y disgybl wrth wraidd y broses bob tro.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Ddarparu arweiniad clir, cyfredol i awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau ar ddefnyddio symudiadau rheoledig a rhaglenni cymorth bugeiliol, yn enwedig yn ymwneud ag amserlenni rhan-amser

A2 Cryfhau amddiffyniad cyfreithiol a mesurau amddiffynnol yn ymwneud â symudiadau rheoledig i adlewyrchu'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd i ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol

A3 Casglu a chyhoeddi data ar symudiadau rheoledig a gwaharddiadau ar lefel awdurdodau lleol a chenedlaethol

A4 Ystyried ehangu mesurau perfformiad, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, i hyrwyddo arfer gynhwysol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A5 Ddarparu'r gallu i ddisgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd cyn ac yn ystod y broses symudiad rheoledig

A6 Monitro defnydd a phriodoldeb rhaglenni cymorth bugeiliol ar lefel ysgolion

A7 Casglu data ar symudiadau rheoledig a defnyddio'r wybodaeth hon i arfarnu effeithiolrwydd rhaglenni cymorth bugeiliol

A8 Hyrwyddo datblygu a defnyddio protocolau symudiadau rheoledig rhwng ysgolion, lle bynnag y bo hynny'n bosibl

A9 Sicrhau y gall disgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar gyngor ac asesiadau arbenigol yn brydlon er mwyn sefydlogi lleoliadau mewn ysgolion cartref lle bynnag y bo hynny'n bosibl

**Dylai ysgolion:**

A10 Sicrhau y gall disgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd

A11 Adolygu'r defnydd o raglenni cymorth bugeiliol yn sgil arweiniad cenedlaethol a lleol yn gynnar yn y broses symudiadau rheoledig

A12 Sicrhau y caiff gwybodaeth allweddol ei rhannu â'r ysgol sy'n derbyn yn ystod y cyfarfod cychwynnol

# Beth yw symudiad rheoledig?

## Diffiniad symudiadau rheoledig

19 Y diffiniad o symudiad rheoledig a ddeellir fwyaf yw trosglwyddiad gwirfoddol o ddisgybl o un ysgol i un arall, sydd wedi'i gynllunio'n ofalus. Mae'n caniatáu disgybl y mae perygl iddo ymddieithrio neu gael ei wahardd drosglwyddo i ysgol arall am gyfnod prawf i ddechrau, gyda chymorth gan yr ysgol gartref a'r awdurdod lleol, lle bo hynny'n briodol. Yn nodweddiadol, mae cyfnod prawf yn para tua chwech i wyth wythnos. Os yw'r symudiad yn llwyddiannus, bydd y disgybl yn trosglwyddo'n ffurfiol i gofrestr yr ysgol sy'n derbyn. Yn ystod y cyfnod hwn, os bydd y symudiad yn aflwyddiannus, bydd y disgybl yn dychwelyd i'w ysgol gartref ar unwaith.

20 Mae symudiad rheoledig yn gytundeb gwirfoddol a, phan gaiff ei gynllunio'n dda, mae iddo lawer o fanteision i'r disgybl unigol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfle i ddechrau o'r newydd mewn ysgol newydd, parhau ag addysg amser llawn a chyfle i ddychwelyd i'w ysgol gartref ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Mae hefyd yn golygu na chaiff unrhyw waharddiad ei gofnodi'n ffurfiol ar gofnod ysgol y disgybl. Mae symudiad rheoledig wedi'i gynllunio'n dda yn broses gam wrth gam sy'n cynnwys y disgybl, rhieni neu ofalwr, y ddwy ysgol ac, yn aml, yr awdurdod lleol.

21 Mae cam cyntaf y broses yn cynnwys cynllunio'r symudiad yn ofalus. Mae'r cynllunio hwn yn cynnwys ei gwneud yn glir i bob parti ar ba sail y mae'r symudiad rheoledig yn mynd rhagddo, manylu ar y rhaglen gymorth i'r disgybl â dyddiadau adolygu penodol, a chytuno ar drefniadau ymarferol, fel y dyddiad dechrau, gwisg ysgol a threfniadau teithio.

22 Ail gam y broses yw rheoli'r trosglwyddiad o un ysgol i'r llall. Fel arfer, bydd disgybl yn ymuno ag ysgol newydd am gyfnod prawf ar ôl toriad naturiol yn y flwyddyn ysgol, naill ai ar ddechrau tymor neu ar ôl gwyliau hanner tymor. Bydd uwch aelod staff priodol yn yr ysgol sy'n derbyn yn gyfrifol am fonitro'r cymorth yn ystod y cyfnod prawf. Yn ystod y cyfnod prawf, dylai pob parti gyfrannu at y broses adolygu.

23 Yn olaf, bydd pennaeth yr ysgol sy'n derbyn, yn sgil trafod â'r disgybl, rhieni neu ofalwyr, yr ysgol gartref a'r awdurdod lleol, yn penderfynu a fydd y symudiad rheoledig yn symudiad parhaol i'r ysgol newydd. Bydd y broses ond yn mynd rhagddi os yw'r disgybl a'r rhieni neu ofalwyr yn cefnogi'r symudiad i ysgol newydd yn llawn.

24 Os bydd pethau'n mynd o chwith neu os bydd y disgybl neu riant/gofalwr yn newid ei feddwl/meddwl, dylai'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol gartref ar unwaith.

25 Er bod gan symudiadau rheoledig sydd wedi'u cynllunio'n dda lawer o fanteision i ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd, nid oes gan y broses yr un statws amddiffynnol cyfreithiol â gwaharddiad parhaol. Mae hyn yn golygu nad oes gan ddisgyblion a rhieni neu ofalwyr disgyblion sy'n destun symudiad rheoledig hawl awtomatig i'r canlynol:

- gwrandawiad ffurfiol â'r corff llywodraethol

- cyfarfod apêl annibynnol
- addysg dros dro cyn pen 15 diwrnod

26 Mae hyn yn golygu, pan gaiff y cytundeb gwirfoddol i symud o un ysgol i'r llall ei reoli'n wael, y gall gael effaith negyddol hirdymor ar ymgysylltiad disgybl â dysgu a llwyddiant mewn addysg. Yn benodol, oherwydd diffyg yr un fframwaith cyfreithiol neu ffactorau amddiffynnol â gwaharddiadau parhaol, nid oes gan symudiadau rheoledig:

- strwythur apelio ffurfiol i rieni a gofalwyr
- trefniadau cadarn ar gyfer cludiant a chyllid
- profiadau teg i ddisgyblion ledled Cymru
- trefniadau gwarantedig ar gyfer addysg dros dro os bydd disgyblion allan o'r ysgol am gyfnod

27 Mae bron pob awdurdod lleol yn darparu protocolau addas i ysgolion ac UCDau yn ymwneud â defnyddio symudiadau rheoledig, gan gynnwys pryd a sut y dylid eu defnyddio. Yn gyffredinol, mae'r protocolau hyn yn adlewyrchu arweiniad Llywodraeth Cymru ac yn hyrwyddo defnydd symudiadau rheoledig.

### Pa bryd nad yw symudiad rheoledig yn symudiad rheoledig?

28 Mae ychydig o achlysuron pan fydd disgybl yn trosglwyddo rhwng ysgolion neu ddarpariaeth addysg arall nad ydynt yn symudiadau rheoledig fel y diffinnir uchod. Dros amser, bu'r diffiniad o symudiad rheoledig yn agored i ddehongli a newid. Mae cyflwyno trefniadau ar gyfer symudiadau rheoledig anffurfiol, fel trosglwyddiadau rheoledig neu ymadawiadau rheoledig, yn caniatáu i awdurdodau lleol ac ysgolion symud disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd o'u hysgol gartref heb waharddiad parhaol neu'r hawl i ddychwelyd. Nid oes unrhyw sail gyfreithiol nac arweiniad cenedlaethol ar gyfer y trefniadau gwirfoddol ac answyddogol hyn. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddiad neu ymadawiad rheoledig yn arfer gyffredinol ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, ac mae ychydig ohonynt yn cynnwys y rhain yn eu harweiniad cyhoeddedig i ysgolion. Mae hyn oherwydd, dros y pum mlynedd diwethaf, bu ysgolion unigol ac awdurdodau lleol dan bwysau i leihau cyfradd y gwaharddiadau parhaol a nifer y dyddiau sy'n cael eu colli oherwydd gwaharddiadau am gyfnod penodol. Mae'r trefniadau hyn yn golygu bod disgyblion yn symud o'u hysgol gartref heb waharddiad ffurfiol ar eu cofnod, ond nid oes ganddynt hawl i ddychwelyd os bydd pethau'n mynd o chwith mewn lleoliad newydd.

29 **Lleoliad mewn darpariaeth arbenigol**. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, caiff symudiadau i leoliadau arbenigol, fel canolfannau adnoddau, UCDau neu wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, eu hystyried yn symudiad rheoledig a chânt eu cynnwys yn y data a gesglir yn lleol ar symudiadau rheoledig. Mae hyn oherwydd bod y cytundeb â rhieni a gofalwyr yn drosglwyddiad gwirfoddol, ni chaiff gwaharddiad parhaol ei orfodi ac mae'r symudiad yn barhaol. Fodd bynnag, gan y caiff y symudiadau hyn eu cydlynu gan banel arbenigol a'r awdurdod lleol sydd fel arfer yn enwi'r ysgol sy'n derbyn, nid yw'n cael ei ystyried yn symudiad rheoledig dechrau o'r newydd.

30 **Ymadawiadau rheoledig neu drosglwyddiadau rheoledig**. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn gweithredu polisi ar gyfer ymadawiadau rheoledig neu drosglwyddiadau rheoledig, yn enwedig i ddisgyblion a fyddai'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol fel arall. Mae hyn yn golygu bod y disgyblion hyn yn trosglwyddo'n wirfoddol o gofrestr yr ysgol i ysgol brif ffrwd neu ddarpariaeth arbenigol newydd. Fodd bynnag, os bydd y symudiad yn aflwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn, nid oes unrhyw ddewis i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol gartref. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn aml yn symud ymlaen i UCDau neu ddarpariaeth addysg arall heblaw yn yr ysgol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

31 **Symudiad ysgol rhagataliol gan rieni a phlant**. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae rhieni'n dewis symud eu plant i ysgol newydd cyn i'r ysgol gartref awgrymu symudiad rheoledig. Yn aml, gelwir hyn yn ddewis i rieni. Yn yr achosion hyn, mae rhieni'n dewis symud eu plant oherwydd nad ydynt yn gwneud llawer o gynnydd, os o gwbl, neu maent yn teimlo bod gwaharddiad parhaol ar ddigwydd. Yn fwy diweddar, mae ychydig iawn o rieni yn symud eu plant oherwydd y bygythiad uniongyrchol o gael eu herlyn am golli'r ysgol. Mewn ychydig o achosion, caiff symudiad rheoledig ei ddefnyddio'n fygythiad i ddarbwyllo rhieni a gofalwyr i gytuno â chamau gweithredu penodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cyfeirio at UCD neu becyn addysg y tu allan i'r ysgol. Yn yr achosion hyn, mae rhieni'n gwneud eu ceisiadau eu hunain ar gyfer lleoliad ysgol newydd ac yn cael ychydig iawn o gymorth neu gyngor gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

## Nodweddion disgyblion

32 Cynhaliodd Estyn arolwg o'r holl awdurdodau lleol ym Medi 2017 i gasglu gwybodaeth am y nodweddion cyffredin rhwng disgyblion a fu'n destun symudiad rheoledig ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11 dros y tair blynedd diwethaf. Ymatebodd 18 o awdurdodau lleol i'r arolwg. Hefyd, ymwelodd arolygwyr â'r awdurdod lleol, ysgol uwchradd ac UCD mewn wyth ardal wahanol. Mae'r canfyddiadau canlynol yn ymwneud â nodweddion disgyblion wedi'u seilio ar y wybodaeth o'r arolygon a lenwyd a'r ymweliadau.

33 Mae llawer o awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth sylfaenol am y rhesymau dros symudiad rheoledig, trefniadau amgen a wnaed a'r deilliannau y mae disgyblion yn eu cyflawni ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae gan ychydig iawn ohonynt wybodaeth ddefnyddiol am gyrchfannau addysg ôl-orfodol dilynol disgyblion.

34 Nid yw ychydig o awdurdodau lleol yn cadw unrhyw wybodaeth am y broses symudiadau rheoledig, nifer y disgyblion dan sylw na nodweddion y rhai sy'n fwyaf tebygol o fod yn destun symudiad rheoledig yn eu hardal leol. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o'r tueddiadau a'r patrymau o ran natur ac anghenion y disgyblion sydd â'r perygl mwyaf o gael eu gwahardd neu ymddieithrio yn eu hawdurdod lleol eu hunain. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i wasanaethau cynhwysiant herio a chynorthwyo ysgolion sydd wedi'u targedu, ac arfarnu effaith rhaglenni cymorth penodol i ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd.

35 Mae'r disgyblion sy'n fwyaf tebygol o fod yn destun symudiad rheoledig fel a ganlyn.

- Mae mwyafrif y disgyblion sy'n destun symudiad rheoledig mewn ysgolion uwchradd ac, yn benodol, ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11.
- Mae mwyafrif y disgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig yn fechgyn.
- Mae tua 40% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Mae llawer o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.
- Ni fu gan ychydig o ddisgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig unrhyw anghenion addysgol arbennig a nodwyd cyn y symudiad rheoledig. Yn rhannol, mae hyn oherwydd digwyddiadau unigryw sylweddol a arweiniodd at symudiad rheoledig, fel ymosodiad corfforol.
- Mae ychydig o symudiadau rheoledig yn cynnwys disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
- Mae lleiafrif o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n destun symudiad rheoledig yn trosglwyddo'n uniongyrchol i UCD neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn cwblhau eu haddysg orfodol y tu allan i addysg brif ffrwd.
- Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 sy'n destun symudiad rheoledig yn symud ymlaen i ysgol brif ffrwd newydd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal eu lleoliad newydd ar ôl y cyfnod prawf.
- Yn 2016-2017, cyflawnodd dros hanner y disgyblion a oedd yn destun symudiad rheoledig y trothwy lefel 1, ond ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion unrhyw gymwysterau lefel 2 na'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg ar ddiwedd Blwyddyn 11.
- Mae bron pob un o'r disgyblion a oedd yn destun symudiad rheoledig ym Mlwyddyn 11 yn sicrhau cynlluniau i drosglwyddo i leoliadau addas, fel colegau addysg bellach neu ddarparwyr hyfforddiant, ond ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n dychwelyd i'r ysgol ar gyfer y chweched dosbarth.

36 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydnabod yr effaith negyddol y mae symudiadau ysgol lluosog yn ei chael ar ddisgyblion sy'n derbyn gofal, yn enwedig os ydynt yn symud rhwng sawl lleoliad gofal ar yr un pryd o ganlyniad i ffactorau y tu allan i'r ysgol. Mae gan lawer o wasanaethau cynhwysiant gytundebau sefydledig â gwasanaethau plant i gynorthwyo â lleoliad ysgol gartref plant sy'n derbyn gofal, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

37 Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ni chaiff anghenion addysgol arbennig disgyblion, yn enwedig mewn dysgu a chyfathrebu cymdeithasol, eu nodi'n ddigon cynnar bob tro. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd yn manteisio ar gymorth amserol neu briodol i fodloni eu hanghenion ac ategu eu lleoliad yn eu hysgol gartref bob tro. Mae hefyd yn golygu nad oes gan yr ysgol sy'n derbyn ddealltwriaeth ddigon da o anghenion addysgol arbennig y disgybl er mwyn gallu cynllunio'n briodol i gynorthwyo'r symudiad rheoledig.

38 Mae lleiafrif o ddisgyblion sy'n destun symudiad rheoledig o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid oes llawer o ddewis i'r disgyblion hyn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trosglwyddo i'w hysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf, a all fod y tu allan i'w

hawdurdod lleol.  Ym mron pob achos, mae disgyblion sy'n dymuno parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn symud i ysgol brif ffrwd, beth bynnag fo'u hanghenion ymddygiadol neu emosiynol.  Mae hyn oherwydd mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n cynnal UCDau neu wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol sy'n gallu bodloni anghenion disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

39 Yn yr un modd, ychydig iawn o ddisgyblion o ysgolion ffydd sy'n destun symudiad rheoledig.  Fel arfer, mae'r disgyblion hyn yn trosglwyddo i'w hysgol leol agosaf, ni waeth p'un a allant barhau â'u haddysg mewn ysgolion ffydd ai peidio.  Mae hyn yn bennaf oherwydd y nifer fach o ysgolion ffydd ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a'r agweddau ymarferol yn ymwneud â theithio i'r ysgol ffydd agosaf.

## Pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cynllunio, cynorthwyo a monitro symudiadau rheoledig?

### Polisi ac arweiniad

40 Mae gan bob awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef weledigaeth ar gyfer cynhwysiant wedi'i seilio ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae gan lawer ohonynt strategaethau addas i gynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd, a chontinwwm o ddarpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion y disgyblion hyn. Mae gan lawer ohonynt flaenoriaethau clir i wella yn y maes hwn sydd wedi'u hategu gan gynlluniau addas ac, yn y rhan fwyaf o achosion, adnoddau a nodwyd.

41 Mewn ychydig o awdurdodau lleol ac ysgolion rhagweithiol, mae cyd-ddealltwriaeth o'r ymateb graddedig i gynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd, sy'n cynnwys:

- strategaethau wedi'u cynllunio'n dda mewn ysgolion, fel mentora, ymyriadau mewn grwpiau bach a chyfleusterau cynhwysiant ar y safle
- cymorth arbenigol allanol amserol a pherthnasol, fel cwnsela yn yr ysgol, gweithwyr ieuenctid yn yr ysgol, ac allgymorth gan y gwasanaeth cymorth ymddygiad
- meini prawf clir ar gyfer manteisio ar gymorth oddi ar y safle a'i ymadael, fel symudiadau rheoledig, cwricwlwm amgen, addysg heblaw yn yr ysgol a lleoliadau arbenigol

42 Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae ysgolion yn darparu ystod eang o strategaethau cymorth defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i gynnal eu lleoliad yn eu hysgol gartref. Gwna'r ysgolion hyn gyfeiriadau priodol ac amserol ar gyfer cymorth amlasiantaeth arbenigol sy'n eu helpu i ddeall anghenion y disgybl yn llawn. Mae hyn yn golygu bod disgyblion ag ymddygiad heriol yn aml yn cynnal eu lleoliad yn eu hysgol gartref yn llwyddiannus. Pan nad yw hyn yn bosibl, mae'r ysgolion hyn yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol i reoli'n ofalus symudiad ysgol i ddisgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd.

43 Fel rhan o'r ymateb graddedig i gynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu protocol i ysgolion ac UCDau ar ddefnyddio symudiadau rheoledig. Caiff y protocolau hyn eu datblygu mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd bron bob tro. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn trefnu bod y protocol ar gael i rieni a gofalwyr ar eu gwefan.

44 Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r protocol yn amlinellu'r prosesau lleol cytûn ar gyfer symudiadau rheoledig, yn diffinio rolau a chyfrifoldebau pob rhanddeiliad yn glir, ac yn disgrifio'r broses monitro ac adolygu yn briodol. Mae ychydig ohonynt hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn sy'n digwydd pan fydd symudiad rheoledig yn aflwyddiannus. Mae hyn oherwydd mai'r gynulleidfa ar gyfer protocolau

ac arweiniad a ddarperir gan awdurdodau lleol yw penaethiaid a chyrff llywodraethol, fel arfer. Mae hyn yn golygu, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, gall disgyblion, rhieni a gofalwyr fanteisio ar wybodaeth gyhoeddedig gyfyngedig am symudiadau rheoledig, yn enwedig y dewisiadau sydd ar gael iddynt os bydd pethau'n mynd o chwith yn yr ysgol newydd.

45 Ychydig iawn yn unig o benaethiaid ysgolion cynradd ac arbennig, neu athrawon â gofal mewn UCDau, sy'n cyfrannu at ddatblygu protocol symudiadau rheoledig eu hawdurdodau lleol. At ei gilydd, dim ond ychydig o'r penaethiaid cynradd y cyfwelwyd â nhw sy'n defnyddio symudiadau rheoledig yn strategaeth ataliol yn eu hymateb graddedig i ymddygiad.

46 Yn ddiweddar, mae ychydig o awdurdodau lleol wedi adolygu eu protocol ar symudiadau rheoledig. Mae hyn oherwydd bod adolygiadau ehangach o wasanaethau cynhwysiant wedi arwain at newidiadau neu ostyngiadau mewn agweddau ar eu darpariaeth, fel cymorth ymddygiad a'r gwasanaeth lles addysg. Mewn llawer o'r awdurdodau lleol hyn lle mae gwasanaethau'n lleihau neu'n dod i ben, dirprwywyd cyllid ychwanegol i ysgolion i gynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd. Yn aml, caiff y cyllid ychwanegol hwn ei ddefnyddio i ddarparu staff ar gyfer y cyfleuster cynhwysiant ar y safle, darparu cymorth ychwanegol mewn gwersi neu ategu darpariaeth alwedigaethol oddi ar y safle. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff disgyblion eu cynorthwyo i aros mewn addysg brif ffrwd cyn hired â phosibl a cheisio lleihau nifer y symudiadau rheoledig, gwaharddiadau parhaol a'r ceisiadau am leoliadau arbenigol.

47 Mae lle mae symudiad rheoledig yn sefyll ar y continwwm darpariaeth yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae symudiadau rheoledig yn strategaeth ymyrraeth gynnar, y rhoddir cynnig arni'n fuan ar ôl dihysbyddu strategaethau mewnol a chymorth arbenigol allanol, fel cwnsela, mewnbwn cyfiawnder ieuenctid ataliol a chymorth ymddygiad. Yn yr achosion hyn, caiff symudiad rheoledig ei ystyried yn opsiwn cyn gwneud cyfeiriadau ar gyfer adnoddau ychwanegol, fel cyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol mewn UCDau neu addysg heblaw yn yr ysgol.

48 Mewn ychydig o achosion, lle mae arfer yn effeithiol, mae awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos ag ysgolion i sicrhau y caiff anghenion disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd eu hadnabod yn ddigon cynnar i alluogi ysgolion i gynllunio darpariaeth briodol. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol wedi cyflwyno asesiad cyfathrebu i bob disgybl yn y cyfnod sylfaen a Blwyddyn 6, ac mae'n bwriadu ailbrofi disgyblion ym Mlwyddyn 7. Mae hyn yn golygu y caiff anghenion cyfathrebu a chymdeithasol sylfaenol disgyblion eu nodi'n ddigon cynnar i allu mynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion yn eu hysgol gartref. Yn yr awdurdod hwn, ni chaiff symudiad rheoledig ei ystyried cyn cynnal yr asesiadau arbenigol, fel arfer.

49 Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau lleol, symudiad rheoledig yw'r gobaith olaf yn aml, pan fydd pob strategaeth arall wedi methu ac mae gwaharddiad parhaol yn debygol iawn. Yn yr achosion hyn, dihysbyddwyd pob strategaeth cymorth mewnol ac allanol ac mae disgyblion yn aml yn destun nifer o waharddiadau maith am gyfnod penodol.

50 Mae ychydig o ddisgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig yn manteisio ar addysg ar sail ran-amser yn unig tra y caiff darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ei threfnu. Yn yr achosion hyn, daw ennyn diddordeb disgyblion mewn addysg amser llawn yn her i'r ysgol sy'n derbyn, yn aml, yn enwedig pan fydd disgyblion hŷn wedi manteisio ar gyn lleied â dwy awr o addysg y dydd am gyfnod.

51 Mae symudiad rheoledig yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n dda â disgyblion a'u teuluoedd, ac yn ei ddefnyddio'n strategaeth ymyrraeth gynnar. Pan gaiff ei ddefnyddio'n obaith olaf, mae'r berthynas â'r ysgol gartref yn aml wedi chwalu, nid oes llawer o obaith o ddychwelyd i'r ysgol gartref ac, yn aml, mae disgyblion yn dangos lefel uchel o ymddieithrio. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd ymgartrefu yn yr ysgol sy'n derbyn ac yn fwy tebygol o symud i UCD neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn y tymor hir.

## Rôl yr awdurdod lleol

52 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn diffinio rôl a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol, yr ysgol gartref, yr ysgol sy'n derbyn a'r teulu yn briodol. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae rôl yr holl randdeiliaid yn y broses symudiadau rheoledig yn amrywio'n fawr ledled Cymru.

53 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd cynlluniau cymorth bugeiliol yn rheolaidd ac yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol i ysgolion a theuluoedd ar y broses symudiadau rheoledig, eu hawliau a'r camau nesaf.

54 Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, mae uwch arweinwyr yn herio pob penderfyniad ynghylch gwaharddiadau parhaol yn weithredol ac yn cydweithio'n agos â phenaethiaid a llywodraethwyr i nodi pecyn cymorth amgen i'r disgybl. Mae swyddogion yn trafod pecyn ymadawiad rheoledig neu drosglwyddiad rheoledig yn gyflym â'r ysgol a'r teulu ac, o ganlyniad, ni chaiff gwaharddiad ffurfiol ei roi ar gofnod ysgol y disgybl. Fodd bynnag, yn aml, nid oes gan y disgybl y dewis i ddychwelyd i'r ysgol gartref. Er bod y trefniadau hyn yn sicrhau nad yw disgyblion yn destun gwaharddiad parhaol, mae'r diffyg hawl i apelio yn golygu na all teuluoedd herio'r penderfyniad a wneir gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

55 Mae ychydig o awdurdodau lleol yn cynnal paneli cymedroli penodol i wneud penderfyniad ynghylch y lleoliad gorau i ddisgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd a chytuno ar unrhyw adnoddau ychwanegol, os yw hynny'n briodol. Mewn awdurdodau lleol rhagweithiol, mae'r holl ysgolion uwchradd yn rhan o'r broses hon, yn darparu her i gymheiriaid ynghylch y trothwyon ar gyfer gwahardd ac yn cydweithio â'i gilydd i gytuno ar atebion addas. Mae trefniadau panel effeithiol yn gwneud yn siŵr bod ysgol uwchradd yn derbyn nifer deg o symudiadau rheoledig yn ystod y flwyddyn.

56 Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sicrhau ei fod yn adnabod disgyblion unigol sydd mewn perygl yn gynnar, a bod yr awdurdod yn darparu ymyriadau priodol i ddisgyblion trwy ei banel symudiadau rheoledig. Mae pob ysgol uwchradd yn cefnogi'r prosesau ac yn ymgysylltu'n llawn â'r protocolau yn ymwneud â symudiadau rheoledig.

57 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae'r strategaeth ar gyfer symudiadau rheoledig wedi dyddio ac mae rolau'r awdurdod lleol a'r ysgol gartref yn aneglur. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd yr awdurdod lleol yn cymryd rôl arweiniol yn y broses ac yn cynnal trafodaethau ag ysgolion newydd posibl heb gynnwys yr ysgol gartref. Yn yr awdurdodau hyn, caiff trafodaethau eu cynnal rhwng y rhiant, yr ysgol sy'n derbyn a'r awdurdod lleol, ond nid oes gan yr ysgol gartref fawr o ran yn y broses, os o gwbl. Yn aml, mae hyn oherwydd nad oes llawer o bosibilrwydd, os o gwbl, i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol gartref. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol gartref yn aml yn ymddieithrio o'r broses yn gyflym, nid yw'n mynychu cyfarfodydd adolygu yn rheolaidd, ac ychydig iawn o gymorth neu wybodaeth y mae'n eu darparu yn ystod y cyfnod pontio.

58 Lle mae arfer yn llai effeithiol, mae awdurdodau lleol yn ymateb yn adweithiol i benderfyniad ysgol i wahardd disgybl yn barhaol. Yn yr achosion hyn, caiff y bygythiad o waharddiad parhaol ei ddefnyddio'n aml gan ysgol i sicrhau ymadawiad cyflym i ddisgybl sy'n peri pryder. Yn aml, nid yw disgybl yn hysbys i unrhyw wasanaethau cymorth, fel cymorth ymddygiad, seicoleg addysg neu'r gwasanaeth lles addysg. Yn yr achosion hyn, mae awdurdodau lleol yn trefnu darpariaeth addysg dros dro yn gyflym er mwyn osgoi gwaharddiad parhaol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion allan o addysg amser llawn am gyfnod sylweddol tra caiff lleoliad parhaol ei sicrhau. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff disgyblion eu tynnu oddi ar gofrestr eu hysgol gartref yn aml, a'u rhoi ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd disgybl ym Mlwyddyn 11. Dan yr amgylchiadau hyn, nid oes unrhyw opsiwn i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol gartref ac nid oes gan y teulu unrhyw hawl ffurfiol i apelio yn erbyn y penderfyniad.

### Trefniadau teithio

59 Mae trefniadau teithio ar gyfer symudiadau rheoledig yn amrywio ledled Cymru. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008) yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio priodol i hwyluso presenoldeb y plentyn bob diwrnod mewn ysgol a gynhelir neu UCD addas. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cludiant i bob disgybl a waharddwyd yn barhaol, ychydig ohonynt yn unig sydd wedi mabwysiadu'r un polisi ar gyfer disgyblion sy'n destun symudiad rheoledig. Mae hyn oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r awdurdod lleol yn enwi'r ysgol addas nesaf i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol. O ran symudiad rheoledig, rhaid i'r awdurdod lleol ddod i gytundeb â'r rhieni neu ofalwyr ynghylch yr ysgol addas nesaf. Mewn ychydig o achosion, mae gwrthdaro ynghylch priodoldeb dewis ysgol yr awdurdod lleol i fodloni anghenion y disgybl. Mae ychydig o awdurdodau lleol yn tynnu cludiant yn ôl ar ôl cyfnod prawf llwyddiannus. Yna, disgwylir i rieni ariannu trefniadau teithio hirdymor. Yn aml, caiff hyn effaith negyddol ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, yn enwedig pan fydd yr ysgol newydd cryn bellter o'r cartref.

60 Mewn lleiafrif o achosion, nid oes gan awdurdodau lleol bolisi clir ar gyfer cludo ysgolion sy'n destun symudiad rheoledig. Ym mron pob awdurdod lleol gwledig, mae trefniadau teithio fel cardiau bws a seddi dros ben ar waith i ategu'r symudiad rheoledig wrth i'r disgybl aros ar gofrestr yr ysgol newydd. Mae'r rhan fwyaf o

awdurdodau trefol yn cytuno ar gludiant fesul unigolyn. Yn aml, mae hyn yn golygu y caiff penderfyniadau eu gwneud gan swyddogion unigol yr awdurdod lleol ac mae arfer yn anghyson, nid yn unig ledled Cymru, ond o fewn awdurdod lleol ambell waith.

### Trefniadau ariannu

61 Mae dogfen ddiweddaraf Llywodraeth Cymru (2015), sef ‘Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion’, yn rhoi gwybodaeth fanwl i awdurdodau lleol i wneud yn siwr fod y cyllid uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl yn dilyn disgybl a waherddir yn barhaol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cwmpasu disgyblion sy’n destun symudiadau rheoledig. Mae hyn yn golygu bod trefniadau i gynorthwyo symudiad rheoledig yn ariannol yn wahanol i’r rhai ar gyfer gwaharddiad parhaol, ac mae cytundebau gwahanol ar waith ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ni chaiff y cyllid uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl ei drosglwyddo i’r ysgol sy’n derbyn o gwbl yn ystod y flwyddyn academaidd fel rhan o’r broses symudiad rheoledig.

62 Mae ychydig o awdurdodau lleol yn cynnwys trefniadau manwl i drosglwyddo cyllid yn eu protocol symudiadau rheoledig. Mae hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar sicrhau y caiff y cyllid ei drosglwyddo’n brydlon. Dim ond ychydig o drefniadau ffurfiol sy’n sicrhau y caiff y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) ei drosglwyddo i’r ysgol sy’n derbyn. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion sy’n gymwys i gael cymorth ychwanegol yn gallu manteisio arno cyn gynted ag y byddant yn dechrau mewn ysgol newydd bob tro. Lle mae cyllid GDD ar gael, mae ysgolion yn ei ddefnyddio’n dda i wella cyfleoedd y cwricwlwm i ddisgyblion unigol, er enghraifft trwy gyrsiau cyswllt â cholegau neu sesiynau dal i fyny mewn mathemateg a Saesneg.

### Anghenion addysgol arbennig

63 Mae gan lawer o ddisgyblion sy’n destun symudiad rheoledig angen addysgol arbennig. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd bod disgyblion sy’n manteisio ar gyfleusterau cynhwysiant ar y safle neu gymorth allanol, fel cymorth ymddygiad, yn aml yn cael eu rhoi ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy.

64 Er y caiff anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan ysgol, yn gyffredinol, ni chaiff eu hanghenion dysgu eu hadnabod yn gynnar yn ddigon da. Yn aml, mae diffyg asesiadau manwl a rhestrau aros hir ar gyfer ymyrraeth seicoleg addysg yn golygu bod disgyblion yn symud i ysgol newydd cyn i’w hanghenion dysgu gael eu deall neu eu hadnabod yn llawn. Yn yr amgylchiadau hyn, mae disgyblion yn symud i ysgolion newydd heb ddarpariaeth addas ar waith.

**Hanes disgybl**

Symudodd disgybl A i ysgol newydd ym Mlwyddyn 8 ar ôl symudiad rheoledig. Roedd disgybl A wedi dioddef anawsterau emosiynol ac ymddygiad ar hyd ei amser yn yr ysgol gynradd ac roedd y rhain wedi gwaethygu wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Adeg ei dderbyn, roedd yr ysgol a oedd yn derbyn wedi rhoi pecyn cymorth cynhwysfawr ar waith i fodloni ei anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Roedd hyn yn cynnwys gallu manteisio ar y ganolfan gymorth fewnol a chymorth ar gyfer medrau cymdeithasol. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn fuan nad oedd y cymorth yn cael fawr o effaith ar ymddygiad disgybl A na'i ddiddordeb mewn dysgu, a dechreuodd uwch arweinwyr drafod â'r awdurdod lleol ynghylch ail symudiad rheoledig.

Ar yr un pryd, cydweithiodd pennaeth y ganolfan gynhwysiant, y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a'r athro arbenigol yn agos â'i gilydd i fonitro ymddygiad a lles disgybl A. Gyda'i gilydd, cynhaliwyd cyfres o asesiadau manwl o ddysgu, lles ac ymddygiad disgybl A. Yn fuan, amlygodd yr asesiadau hyn anawsterau dysgu a chyfathrebu cymdeithasol sylweddol. Cydweithiodd yr ysgol yn agos â'r awdurdod lleol i sicrhau lleoliad arbenigol rhan-amser i ddisgybl A yng nghanolfan adnoddau'r ysgol, yn ogystal â'r gallu parhaus i fanteisio ar y ganolfan gymorth fewnol. Sicrhaodd hyn y bodlonwyd anghenion dysgu ac emosiynol disgybl A yn briodol trwy allu manteisio ar addysgu arbenigol. Gorffennodd disgybl A ei addysg orfodol yn yr ysgol ac, ar ddiwedd Blwyddyn 11, symudodd ymlaen yn llwyddiannus i gwrs mewn coleg lleol.

## Addysg cyfrwng Cymraeg

65 Yn gyffredinol, mae disgyblion iau sy'n destun symudiad rheoledig a fu'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i'r ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf. Mae ychydig o ddisgyblion yn dewis mynychu ysgol cyfrwng Saesneg yn wirfoddol ar ôl symudiad rheoledig. Yn aml, mae hyn oherwydd yr anawsterau y maent wedi'u hwynebu yn eu hysgol gartref a'u gafael ar y Gymraeg. Ym mron pob un o'r achosion hyn, mae disgyblion a'u teuluoedd yn cytuno â'r symudiad i ysgol cyfrwng Saesneg.

66 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae penaethiaid wedi meithrin cysylltiadau defnyddiol ag ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos i wneud yn siwr y caiff disgyblion y cynnig i ddechrau o'r newydd mewn ysgol newydd, lle bo hynny'n briodol. Ym mron pob achos, mae'r awdurdod lleol yn darparu cludiant i gynorthwyo â'r symudiadau rheoledig hyn. Mae ychydig o ysgolion wedi datblygu trefniadau trawsffiniol anffurfiol effeithiol i hwyluso symudiadau rheoledig effeithiol. Er enghraifft, mewn ychydig o awdurdodau lleol lle mae un ysgol cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn unig, mae penaethiaid yn cydweithio'n agos ag ysgolion mewn awdurdodau cyfagos i ddatblygu proses symudiadau rheoledig anffurfiol sy'n caniatáu i ddisgyblion symud yn gyflym i ysgol newydd am gyfnod prawf, pan fydd hynny'n briodol. Mae hyn yn golygu y gall disgyblion barhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliad prif ffrwd.

67 Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd sydd gan lawer o ddisgyblion hŷn sy'n symud ymlaen i UCD neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol trwy baneli cymorth awdurdodau lleol i barhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn oherwydd bod y gwasanaethau hyn yn darparu gwasanaethau cyfyngedig trwy gyfrwng y Gymraeg ac, yn aml, nid yw'r cysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

68 Mewn ychydig iawn o achosion lle nad yw'r awdurdod lleol yn darparu cludiant, nid yw disgyblion yn trosglwyddo i'w dewis ysgol bob tro, yn enwedig ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hyn oherwydd bod gormod o bellter rhwng ysgolion ac mae costau teithio yn rhy ddrud i deuluoedd.

### Rôl yr UCD

69 Mae rôl UCD yn amrywio'n fawr ledled Cymru, yn unol â pholisïau neu gontinwwm cymorth bob awdurdod lleol. Mae bron pob UCD yng Nghymru yn darparu lleoliadau i ddisgyblion oed uwchradd, y mae llawer ohonynt yn lleoliadau tymor hir. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darparu lleoliadau i ddisgyblion oed cynradd

70 At ei gilydd, gwna UCDau ledled Cymru gyfraniad cyfyngedig i hwyluso symudiadau rheoledig. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo symudiadau rheoledig fel dewis cyn ystyried lleoliad yn yr UCD. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae cynorthwyo disgyblion i aros mewn addysg brif ffrwd yn flaenoriaeth ac, yn aml, mae UCDau ar ddiwedd y continwwm cymorth ac yn cael eu hystyried yn gyfle olaf i lawer o ddisgyblion.

71 Mae ychydig o awdurdodau lleol yn gofyn i UCDau ddarparu addysg dros dro i ddisgyblion nad ydynt mewn addysg oherwydd anawsterau ymddygiadol, iechyd meddwl neu iechyd fel mater o drefn, gan gynnwys y rhai sy'n aros am leoliad fel rhan o'r broses symudiadau rheoledig. Mae hyn yn golygu bod disgyblion nad ydynt yn yr ysgol, am gyfnod sylweddol ambell waith, yn cadw mewn cysylltiad ag addysg tra deuir o hyd i ysgol sy'n derbyn. Mae hyn yn aml yn digwydd ar ôl ymadawiad neu drosglwyddiad rheoledig o ysgol yn dilyn digwyddiad difrifol untro. Mae ychydig o awdurdodau lleol yn darparu addysg dros dro mewn grŵp mewn canolfannau cymunedol a hamdden nad ydynt wedi'u cofrestru'n briodol â Llywodraeth Cymru yn rhan o UCD.

72 Fodd bynnag, ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sy'n darparu addysg amser llawn dan yr amgylchiadau hyn ac, yn aml, disgwylir i'r ysgol gartref dalu am yr addysg dros dro tra caiff trefniadau eu cadarnhau. Yn aml, mae'r diffyg darpariaeth amser llawn yn cael effaith negyddol ar ddiddordeb disgyblion mewn dysgu, eu lles cyffredinol a'u hysgogiad i lwyddo mewn addysg brif ffrwd.

### Olrhain a monitro

73 Yn 2015-2016, roedd 109 o waharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir ac UCDau yng Nghymru. Nid yw cyfradd y gwaharddiadau parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion wedi newid mewn pum mlynedd. Ym mlwyddyn academaidd 2015-2016, fel yn y pedair blynedd gynt, roedd 0.2 o waharddiadau parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion o ysgolion a gynhelir ac UCDau. At ei gilydd, mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol wedi disgyn yn sylweddol ers ei uchafbwynt yn 2004-2005, sef 465 (Llywodraeth

Cymru, 2014). Mae hyn, yn rhannol, o ganlyniad i gyflwyno ystod o arferion symudiadau rheoledig ledled Cymru, yn enwedig ymadawiadau neu drosglwyddiadau rheoledig.

74 Caiff data ar waharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol ei gasglu gan UCDau trwy gasgliad data addysg heblaw yn yr ysgol, a chan ysgolion a gynhelir trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn y mis Ionawr ar ôl y flwyddyn academaidd y gwnaed y gwaharddiad.

75 Nid oes unrhyw adroddiad cenedlaethol blynyddol ar symudiadau rheoledig sy'n cyflwyno data yn ôl oedran, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig, rhesymau dros y symudiad rheoledig neu'r trefniadau addysg heblaw yn yr ysgol a wnaed. Ers cyhoeddi'r arweiniad yn 2011 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011), nid yw Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol unigol wedi monitro fawr o'i effaith. Mae hyn yn golygu bod prinder gwybodaeth ddibynadwy am batrymau a thueddiadau o ran defnyddio symudiadau rheoledig, a hefyd effeithiolrwydd y strategaeth ledled Cymru.

76 Mae ychydig o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn datblygu systemau cadarn i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion sy'n cael profiad o symudiadau rheoledig. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn dechrau ennill dealltwriaeth well o effeithiolrwydd strategaethau ymyrraeth a chymorth, ac yn nodi meysydd i'w gwella'n gyflym. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae'r prosesau hyn.

77 Lle mae olrhain a monitro yn llai effeithiol, nid oes gan awdurdodau lleol wybodaeth ddefnyddiol na manwl am gynnydd disgyblion ar ôl y cyfnod prawf, y deilliannau y mae disgyblion yn eu cyflawni na'u cyrchfannau ar ôl ysgol. Nid yw'r awdurdodau lleol hyn yn arfarnu effaith eu gwasanaethau i gynorthwyo symudiadau rheoledig yn ddigon da, ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir.

78 Mae ychydig iawn o ysgolion yn dibynnu'n drwm ar symudiadau rheoledig fel modd o wella ymddygiad, data presenoldeb a dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4, yn hytrach nag yn strategaeth i gynorthwyo disgyblion unigol. Mae'r diffyg data cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, neu fesurau perfformiad yn y maes hwn, yn golygu nad yw ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif yn rheolaidd gan awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol ynghylch defnyddio symudiadau rheoledig, hyd yn oed pan fydd y niferoedd yn uchel.

79 Mae mesurau perfformiad presennol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn mesur cyflawniadau pob disgybl, beth bynnag fo'u hanghenion, galluoedd a mannau cychwyn, gan ddefnyddio'r un set o fesurau. Mae hyn yn golygu, ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, y caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, y rhai sydd wedi colli rhannau o'u haddysg a'r rhai sydd wedi ymuno ag ysgol yn hwyr, eu mesur yn erbyn yr un set o fesurau perfformiad â'u cyfoedion.

80 Wrth ystyried perfformiad a chynnydd, nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cydnabod cyd-destun eu hysgolion yn ddigon da bob tro, nac yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion heriol a bregus iawn, yn enwedig ym Mlwyddyn 10 ac 11. Er enghraifft, mae ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn derbyn nifer o symudiadau rheoledig yng nghyfnod allweddol 4. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r symudiadau'n llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddechrau'r

o’r newydd.  Fodd bynnag, mae’r effaith negyddol bosibl ar brif ddangosyddion perfformiad yr ysgol yn aml yn tynnu sylw oddi wrth effaith gadarnhaol symudiadau rheoledig ar wella lles y disgyblion hyn a’u diddordeb mewn dysgu.  Yn yr achosion hyn, caiff cyfleoedd i nodi a rhannu arfer orau ar lefel ysgolion, yn ymwneud â chynnwys disgyblion heriol, eu colli.

81 Yn yr un modd, oherwydd y diffyg casglu data cadarn, mae aelodau etholedig yn aml yn anymwybodol o’r defnydd o symudiadau rheoledig na’r costau sy’n gysylltiedig â chynorthwyo symudiadau rheoledig.  Nid ydynt yn cael diweddariadau manwl gan swyddogion ac nid ydynt yn gwybod sawl symudiad a fu’n llwyddiannus, neu a yw disgyblion yn cyflawni’n dda ac yn symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

## Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn cynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd?

### Gweledigaeth ac ethos

82 Mae’r holl benaethiaid y cyfwelwyd â nhw yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad strategol eu hysgol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi ymrwymo i’r agenda cynhwysiant ac yn ymdrechu i sicrhau y caiff anghenion pob disgybl, beth bynnag fo natur eu hanawsterau, eu bodloni yn eu hysgol brif ffrwd leol.

83 Mae gan yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw bolisïau a gweithdrefnau cryf i reoli ymddygiad a chynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd. Yn yr ysgolion hyn, mae adolygiad blynyddol o bolisïau allweddol, fel y polisi ymddygiad, a’u heffeithiolrwydd, ac mae prosesau sefydledig ar waith i adolygu’r polisïau hyn ar y cyd â llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni, ac arfarnu eu heffaith ar arfer.

84 Ym mron pob un o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, caiff staff hyfforddiant defnyddiol sy’n eu helpu i gynllunio ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anawsterau a’u cynorthwyo, gan gynnwys ymddygiad heriol. Mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio’r GDD i ddatblygu hyfforddiant i’r holl staff, gan gynnwys goruchwylwyr amser cinio a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar anawsterau ymlynu, strategaethau lleddfu ac ymyrraeth gorfforol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae hyfforddiant i lywodraethwyr yn ymwneud ag ymddygiad heriol wedi’i gyfyngu i brosesau gwahardd a disgyblu.

85 Er bod penaethiaid a llywodraethwyr wedi ymrwymo i ddarparu dechrau o’r newydd i ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd, maent yn rhannu ychydig o bryderon cyffredin ynghylch effaith symudiadau rheoledig, yn enwedig pan fydd disgyblion yn symud yn barhaol yng nghyfnod allweddol 4. Mae’r pryderon yn canolbwyntio’n bennaf ar yr effaith y gallai disgyblion unigol ei chael ar ddangosyddion perfformiad ysgol, yn enwedig:

- dangosyddion perfformiad cyfnod allweddol 4, yn enwedig y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg
- eu proffil meincnodi tair blynedd o gymharu ag ysgolion tebyg
- data presenoldeb ac ymddygiad cyffredinol
- nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

86 Mae’r pryderon hyn yn codi oherwydd bod ffocws cul i fesurau perfformiad presennol cyfnod allweddol 4, ac nid ydynt yn ystyried cynnydd disgyblion yn ddigon da. Hefyd, mae diffyg mesurau lles cadarn sy’n cydnabod cynnydd disgyblion mewn meysydd pwysig, fel ymgysylltiad, gwytnwch ac agweddau tuag at ddysgu. O ganlyniad, nid oes gan fesurau perfformiad ffocws digonol ar feysydd pwysig o ran gwella ysgol, fel lles disgyblion, cynhwysiant cymdeithasol a diogelu dysgwyr sy’n agored i niwed.

87 Ychydig iawn o ysgolion sy’n hynod effeithiol o ran dadansoddi’r cynnydd a wneir gan grwpiau o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig yn eu dysgu,

lles a'u hagweddau tuag at ddysgu. Gall yr ysgolion hyn fesur yn gywir y cynnydd a wneir gan unigolion a grwpiau o ddisgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o'u mannau cychwyn. Mae hyn yn helpu arweinwyr i nodi pa strategaethau cymorth sy'n gweithio'n dda, y meysydd y mae angen eu datblygu, a'r cynnydd a wneir gan unigolion a grwpiau o ddisgyblion ers iddynt ddechrau yn yr ysgol.

### Dulliau cynhwysiant ysgol gyfan

88 Mewn llawer o ysgolion, mae systemau sefydledig i adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Maent yn darparu continwwm graddedig o gymorth i reoli ymddygiad disgyblion a'u hanawsterau cymdeithasol ac emosiynol. I lawer o ddisgyblion, mae eu hadnabod yn gynnar a chymorth effeithiol yn atal eu hanawsterau rhag gwaethygu, sy'n golygu eu bod yn cynnal eu lleoliad yn eu hysgol gartref.

89 Mewn ysgolion effeithiol, mae symudiad rheoledig yn strategaeth sy'n cael ei chynnig yn ddigon cynnar yn y continwwm cymorth i sicrhau y caiff disgyblion y cyfle gorau posibl i lwyddo a dychwelyd i'w hysgol gartref, pan fydd yn briodol. Yn yr ysgolion hyn, caiff rhaglenni cymorth bugeiliol eu defnyddio'n dda i gydlynu cymorth, darparu cymorth ychwanegol a monitro'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion.

90 Y nodweddion allweddol mewn ysgolion sy'n gwneud continwwm graddedig o gymorth yn llwyddiannus yw:

- gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl
- datblygu polisïau a gweithdrefnau ymddygiad clir sy'n cael eu deall yn dda a'u cymhwyso'n gyson gan staff
- darparu profiadau dysgu eang a hynod ddiddorol sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion a dyheadau'r holl ddisgyblion
- sefydlu cyfleusterau cynhwysiant effeithiol ar y safle sy'n cynorthwyo anawsterau dysgu, cymdeithasol ac emosiynol
- datblygu protocol symudiadau rheoledig clir ag ysgolion lleol tebyg

**Ysgol Uwchradd Coedcae: Ymateb graddedig hynod effeithiol sy'n hyrwyddo cynhwysiant yn llwyddiannus**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Coedcae yn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, cymysg 11-16 oed sydd wedi'i lleoli yn Nhrostre, Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae 820 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw disgyblion o'r gymdogaeth o gwmpas yr ysgol yn bennaf, ac ymhellach i ffwrdd yn nhref Llanelli. Mae tua 25% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17%. Mae tua 44% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tua 60% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion ychwanegol yr ysgol, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae gan 4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2%. Mae 96% o'r disgyblion o gefndir gwyn a daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gartrefi sy'n siarad Saesneg. Mae nifer fach o'r

disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae tua 7% o'r disgyblion yn siarad iaith heblaw'r Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Bu'r pennaeth yn ei swydd er 2012, ac mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth ac uwch athro.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer effeithiol**

Cynhaliodd rheolwyr yr ysgol ymarfer hunanarfarnu cadarn, a oedd yn cynnwys arfarnu effeithiolrwydd gwasanaethau cynhwysiant a chymorth. Yn hanesyddol, bu nifer o ddysgwyr yn destun symudiad rheoledig neu waharddiad parhaol, neu roeddent wedi ymuno â darpariaeth arbenigol mewn UCDau yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Ar ôl ymgynghori â staff a disgyblion, daeth arweinwyr i'r casgliad bod cryfder sylweddol yn set sgiliau staff ar bob lefel yn yr ysgol a allai ganiatáu cynllunio cwricwlwm priodol a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Roedd hyn yn golygu, gyda chyllid a darpariaeth briodol, y gallai mwy o ddisgyblion gynnal eu lle yn yr ysgol yn llwyddiannus heb fod angen symudiad rheoledig i ddarparwr arall.

Felly, dechreuodd yr ysgol gryfhau ei darpariaeth i ddysgwyr agored i niwed. Lluniwyd polisïau a gweithdrefnau fel eu bod yn crynhoi ethos newydd a chryfach yr ysgol o gynhwysiant. Oherwydd cyfyngiadau ariannol, bu raid i'r ysgol weithio'n galed ac yn greadigol i nodi'r hyfforddiant ac arweiniad mwyaf buddiol ac effeithiol i'w staff. Canolbwyntiodd arweinwyr ar feysydd fyddai'n darparu mwy o ddealltwriaeth i'w staff o faterion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar eu disgyblion a'u teuluoedd. Rhoddwyd hyfforddiant i holl staff yr ysgol ar ymwybyddiaeth o ymlyniad a hyfforddiant emosiynol. Canolbwyntiodd hyfforddiant ysgol gyfan ar sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd empathi, goddefgarwch ac amynedd yn ystod unrhyw raglen cymorth ymddygiad, a hyfforddwyd staff ar ddulliau adferol i newid ymddygiad. Hyfforddwyd yr holl staff mewn cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a lluniodd yr ysgol becyn offer gwerthfawr yn canolbwyntio ar yr unigolyn i'r staff i'w cynorthwyo yn eu gwaith â disgyblion agored i niwed. Mabwysiadwyd polisi ysgol newydd i sicrhau y byddai unrhyw blentyn a oedd yn dechrau dangos arwyddion o anhawster emosiynol neu ymddygiadol yn gallu manteisio'n brydlon ar weithiwr allweddol o'i (d)dewis. I'r perwyl hwnnw, dewisodd nifer o aelodau staff ar bob lefel hyfforddi naill ai'n swyddogion cyswllt â theuluoedd neu'n weithwyr allweddol disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys staff cymorth, staff gweinyddol a gweithiwr ieuenctid yr ysgol, yn ogystal ag athrawon. Mae'r gweithwyr allweddol a'r swyddogion cyswllt â theuluoedd hyn yn chwarae rhan hanfodol yng nghyfarfodydd cymorth a chynllunio Tîm o Amgylch y Teulu yr ysgol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch**

Y prif sbardun mewn hyrwyddo ethos cynhwysol yn yr ysgol yw'r 'Polisi ac Arweiniad ar Ymddygiad ar gyfer Dysgu'. Trwy'r polisi cynhwysfawr hwn, mae'r ysgol wedi mapio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng cynhwysiant a chymorth disgyblion, ac addysgu a dysgu wedi'u targedu. Caiff pecynnau

llythrennedd a rhifedd pwrpasol eu cynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer sesiynau mentora unigol yn y boreau, sesiynau grŵp storïau cymdeithasol a grwpiau darllen ar garlam pwrpasol.  Cynhelir grwpiau maethu yn gynnar yn y boreau, sy'n meithrin ymddiriedaeth rhwng disgyblion sy'n agored i niwed a'u gweithwyr allweddol sy'n oedolion.  Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn sy'n dangos agweddau mwy negyddol tuag at ddysgu neu ddadrithiad weithio â phartneriaid sefydledig yr ysgol, er enghraifft trwy raglenni medrau sylfaenol a medrau bywyd buddiol a ddarperir gan Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

Fel rhan o'r dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4, mae'r holl ddisgyblion yn dewis opsiwn o'r 'Golofn Gyfoethogi'.  Mae disgyblion mwy abl yn astudio cyrsiau TGAU ychwanegol, er enghraifft mewn cymdeithaseg, seicoleg neu iaith dramor fodern ychwanegol.  Yn ogystal, mae ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a chyfoethogi i ddewis ohonynt, gan gynnwys cwrs coginio a luniwyd gan gogydd enwog, profiad gwaith estynedig, medrau llawysgrifen, dal i fyny â llythrennedd a rhifedd a rhaglenni medrau cymdeithasol gwerthfawr.  Mae'r opsiynau hyn yn darparu profiadau gwerthfawr i ddysgwyr sy'n agored i niwed, ac yn aml yn darparu cwricwlwm amgen hanfodol ar eu cyfer sy'n cynorthwyo eu presenoldeb yn yr ysgol pan allant ddewis peidio â mynychu fel arall.

Mae gweithiwr ieuenctid yr ysgol hefyd yn darparu cyrsiau pwrpasol i unigolion sydd ag anghenion emosiynol penodol.  Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i feithrin llawer o bartneriaethau gwerthfawr a llwyddiannus â sefydliadau, sy'n darparu profiadau a hyfforddiant buddiol i bobl ifanc, fel Cwrs Ffenics y Gwasanaeth Tân a Phrosiect Tacl Clwb Rygbi'r Scarlets.

Mae gweithwyr allweddol yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd â lluniaeth yn ystod amser egwyl i staff addysgu'r disgyblion unigol y maent yn gyfrifol amdanynt er mwyn casglu gwybodaeth am safonau ac agweddau tuag at ddysgu ac ymddygiad.  Mae proffiliau un dudalen disgyblion yn ddogfennau gweithio sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gan weithwyr allweddol a'u rhannu â staff.  Mae cynlluniau ymddygiad yn syml ac yn hylaw.  Dim ond dwy adran sydd ganddynt – 'pryderon' a 'telerau cytûn'.  Mae'r ddwy ddogfen hyn yn ffurfio sail i'r holl drafodaethau am ddisgyblion yng nghyfarfodydd rheolaidd y Tîm o Amgylch y Teulu.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae arweinwyr wedi canfod bod cynnal lefel gyson o ymyrraeth â ffocws, ynghyd â pherthynas gadarnhaol, gynhyrchiol â rhieni, yn arwain at gyrhaeddiad a phresenoldeb gwell, ac ymddygiad gwell i ddisgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd.  Dros amser, mae'r ysgol wedi gweld gostyngiad nodedig yn nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol ac yn nifer y ceisiadau am symudiadau rheoledig a wneir i Banel Cymedroli'r Awdurdod Lleol.  Mae'r ethos ysgol gyfan o gynhwysiant a chymorth, a'i phwyslais ar ddangos empathi tuag at bob disgybl, wedi cael effaith gadarnhaol ar les a phresenoldeb disgyblion.

Mae'r ffocws cryf ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a staff cymorth mewn materion cynhwysiant wedi cryfhau gallu'r ysgol i ddarparu ar gyfer y dysgwyr mwyaf bregus a heriol heb fod angen cymorth allanol. Mae staff wedi elwa ar hyfforddiant gwerthfawr a buddiol gan gyrff proffesiynol sefydledig. Er enghraifft, darparodd Ymddiriedaeth y Gofalwyr hyfforddiant ar gymorth bugeiliol, a dysgodd staff sut i gynorthwyo disgyblion y mae eu rhieni yn y carchar gan elusen Invisible Walls.

### Rhaglenni cymorth bugeiliol

91 Mewn llawer o ysgolion, caiff rhaglenni cymorth bugeiliol eu defnyddio'n addas i gynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio a chael eu gwahardd. Mae creu rhaglen cymorth bugeiliol yn mynnu bod yr ysgol yn nodi unrhyw ddulliau cymorth ychwanegol y mae angen eu rhoi ar waith, gwneud cyfeiriadau priodol i asiantaethau allanol a nodi targedau realistig i'r disgybl weithio tuag atynt.

92 Mewn ysgolion hynod effeithiol, mae rhaglen cymorth bugeiliol yn strategaeth ymyrraeth gynnar, sydd â'r nod o fod yn ddull o ddarparu cymorth ychwanegol er mwyn osgoi gwaharddiad a gwella ymgysylltiad â dysgu.

93 Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr ysgolion yn ymgysylltu'n weithredol â rhieni a gofalwyr yn gynnar ac yn eu cynnwys yn dda mewn datblygu a monitro rhaglenni cymorth bugeiliol. Yn yr achosion hyn, mae anghenion disgyblion yn ganolog ac mae teuluoedd yn deall y rhesymau dros y cynllun a'r cymorth a ddarperir gan asiantaethau.

94 Yn Ysgol Gyfun Tredegar, mae gweithdrefnau hynod effeithiol ar waith i gynorthwyo ymddygiad a lles disgyblion. Mae cyflwyno cyfarfodydd pryder a gweithredu yn sicrhau bod yr ysgol yn adnabod disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd yn ddigon cynnar, ac yn darparu cymorth effeithiol ac amserol i ail-ymgysylltu. Caiff rhaglenni cymorth bugeiliol eu defnyddio'n effeithiol i gydlynu cymorth amlasiantaeth, arfarnu effaith ymyriadau a mireinio strategaethau, yn ôl yr angen. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ostwng nifer y gwaharddiadau, ymddygiad da ymhlith disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, a chyfraddau presenoldeb rhagorol.

95 Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol i rannu strategaethau llwyddiannus, fel defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol, ag ysgolion eraill ledled yr awdurdod.

96 Mewn arfer llai effeithiol, caiff rhaglenni cymorth bugeiliol eu creu yn rhy hwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, mae gan raglenni cymorth bugeiliol y nod unigol o gadarnhau symudiad rheoledig neu wahardd disgybl o'r ysgol yn barhaol. Yn yr ysgolion hyn, yn aml, nid oes gan strategaethau cymorth ddigon o amser i fod yn effeithiol, ni chânt eu hadolygu rheolaidd a gwneir cyfeiriadau i asiantaethau cymorth allanol yn rhy hwyr. O ganlyniad, caiff y rhaglenni cymorth bugeiliol effaith gyfyngedig ar gefnogi lleoliad disgybl yn yr ysgol gartref.

97 Er bod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu arweiniad defnyddiol i ysgolion ac UCDau ar sut i ddefnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol yn briodol, cânt eu defnyddio

gan ysgolion yn aml i leihau faint o amser y mae disgyblion heriol yn mynychu'r ysgol yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn golygu bod disgyblion, sydd yn aml yn arbennig o fregus, yn mynychu'r ysgol ar sail ran-amser, fel boreau yn unig.

98 Mewn lleiafrif o achosion, mae ysgolion yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol i ddisgyblion sy'n cael eu rhoi ar amserlenni rhan-amser. Mae'r rhain yn cynnwys gallu manteisio ar yr UCD, addysg dros dro neu leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol. Pan gânt eu rhoi ar waith yn gyflym, gall y trefniadau hyn fod yn hynod lwyddiannus o ran ail-ymgysylltu â disgyblion unigol a'u cadw mewn addysg.

99 Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, gofynnir i rieni gadw eu plant gartref am ran o'r wythnos. Yn aml, ni phennir amser penodol ar gyfer y trefniadau hyn ac maent yn parhau am gyfnod penagored. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhestr aros am ddewis arall parhaol, fel lleoliad yn yr UCD neu addysg heblaw yn yr ysgol. Hefyd, caiff y trefniadau hyn eu rhoi ar waith pan fydd symudiadau rheoledig yn cymryd yn hwy na'r disgwyl, yn enwedig pan fydd ymddygiad disgybl yn gwaethygu i'r graddau bod gwaharddiad parhaol yn debygol. Yn aml, caiff y trefniadau rhan-amser hyn effaith negyddol ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu, eu hunanhyder a'u cymhelliant i lwyddo mewn lleoliad newydd.

100 Mae'r defnydd o godau presenoldeb cywir pan ofynnir i ddisgyblion aros gartref yn amrywio ledled Cymru. Mae hyn oherwydd bod ysgolion unigol ac awdurdodau lleol dan bwysau i wella eu cyfraddau presenoldeb cyffredinol a chyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn golygu bod ysgolion yn cofnodi bod disgyblion yn bresennol er nad ydynt yn derbyn addysg dan oruchwyliaeth.

101 Mewn un awdurdod lleol, caiff ysgolion eu cynghori i roi cod presenoldeb presennol i ddisgyblion sydd ag amserlenni rhan-amser, hyd yn oed os nad yw'r disgyblion yn cael unrhyw addysg dan oruchwyliaeth gartref. Mae ysgolion yn defnyddio codau gweithgarwch addysgol cymeradwy (cânt eu trin fel petaent yn bresennol), fel cod B (disgyblion sy'n derbyn addysg oddi ar y safle nad oes ganddynt gofrestriad deuol) neu god D (disgyblion sydd â chofrestriad deuol ac sy'n bresennol mewn ysgol arall neu UCD) dan yr amgylchiadau hyn. Mae hyn yn golygu bod cyfradd presenoldeb yr ysgol, a chyfradd presenoldeb yr awdurdod lleol o ganlyniad, yn gwella a bod cyn lleied â phosibl o ddata ar waharddiadau.

102 Er bod llawer o awdurdodau lleol yn ymwybodol o arferion yn ymwneud â defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol yn amhriodol, a'u bod yn herio penaethiaid unigol a llywodraethwyr yn rheolaidd, ychydig iawn ohonynt sydd â dealltwriaeth gadarn o faint o ddisgyblion sydd ag amserlenni rhan-amser ac am ba hyd. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn monitro'r disgyblion hyn yn ddigon da i sicrhau eu bod yn ddiogel a'u bod yn dychwelyd i addysg amser llawn addas cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol yng ngwaith yr awdurdod lleol. Yn genedlaethol, mae arfer amrywiol o ran codau presenoldeb ar gyfer amserlenni rhan-amser yn golygu bod adrodd ar bresenoldeb ysgol yn anghyson ledled Cymru.

## Profiadau dysgu

103 I lawer o ddisgyblion iau, mae'r broses symudiadau rheoledig yn rhoi cyfle iddynt ddechrau o'r newydd ac mae llawer ohonynt yn llwyddo i wella eu hymddygiad dros amser ac ymgysylltu'n well â'u dysgu. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael ail gyfle ac y bu adnabyddiaeth ac ymyrraeth gynnar yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn parhau â'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd a gallant ddechrau gwneud dewisiadau ynghylch eu dysgu fel rhan o lwybrau dysgu 14-19.

104 Yn dilyn cyfnod pontio llwyddiannus, mae'r disgyblion hyn yn manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys yn eu hysgol newydd. Mae hyn yn golygu, i ddisgyblion iau, nad yw symudiadau rheoledig yn cael effaith negyddol hirdymor ar eu profiadau dysgu, yn gyffredinol ac, o ganlyniad, y deilliannau y maent yn eu cyflawni ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

105 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ystod eang o ddewisiadau pynciau ar gael, a gwna disgyblion eu dewisiadau ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae hyn eu golygu eu bod yn astudio pynciau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt ac yn adeiladu'n dda ar eu diddordebau a'u dyheadau.

106 Fodd bynnag, at ei gilydd, caiff symudiadau cynlluniedig yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ym Mlwyddyn 11, effaith negyddol ar y profiadau dysgu a gynigir yn aml, yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol. Yn aml, mae ysgolion yn cynnig ystod gyfyngedig o brofiadau dysgu i'r disgyblion hyn. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion, sy'n aml wedi ymddieithrio eisoes, yn dilyn cyrsiau o'u dewis neu gyrsiau sy'n cyfateb i'w diddordebau bob tro. Yn ogystal, mae llawer o ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i sesiynau dal i fyny mewn Saesneg a mathemateg. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn ennill set briodol o gymwysterau i'w galluogi i ddilyn cwrs o'u dewis mewn coleg addysg bellach.

107 Yn Ysgol Bryn Tawe, mae uwch arweinwyr yn cydweithio'n agos â theuluoedd i wneud yn siŵr fod arlwy'r cwricwlwm yn yr ysgol newydd yn bodloni anghenion a dyheadau disgyblion. Maent yn parhau i gynorthwyo disgyblion i fanteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol i ffwrdd o'r safle, fel trin gwallt, fel rhan o'r cytundeb sefydliad rheoledig trwy sicrhau bod cludiant a chymorth ar waith yn y lleoliad. Mae hyn yn golygu bod disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd yn dechrau o'r newydd mewn ysgol newydd ac yn parhau ag agweddau llwyddiannus ar y cwricwlwm fel rhan o'u hysgol gartref ar yr un pryd.

108 Mae lleiafrif y disgyblion Blwyddyn 11 yn trosglwyddo'n uniongyrchol i'r UCD neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn hytrach nag ysgol newydd. Yn aml, mae'r disgyblion hyn yn manteisio ar gwricwlwm cyfyngedig iawn sy'n arwain at lai o gymwysterau cydnabyddedig. Yn aml, nid yw hyn yn caniatáu i ddisgyblion barhau â'u dysgu, yn enwedig mewn pynciau arbenigol fel gwyddoniaeth, TGCh a drama.

## Cyfleusterau cynhwysiant mewn ysgolion

109 Mae cyfleusterau cynhwysiant mewn ysgolion yn chwarae rhan bwysig mewn helpu disgyblion ag ystod o broblemau, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, y rhai sydd â phresenoldeb isel, a'r rhai sydd ag anawsterau iechyd

meddwl. Mae cyfleusterau effeithiol yn helpu i ostwng nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol a symudiadau rheoledig, yn ogystal â darparu cymorth i'r rhai sy'n dechrau mewn ysgol newydd yn rhan o symudiad rheoledig.

110 Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion fel arfer yn dechrau eu lleoliad ysgol trwy fynychu'r ganolfan. Mae'r cyfleusterau hyn yn darparu canolfan ddiogel a chyfarwydd i ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu disgyblion i feithrin perthynas ag oedolion allweddol, mynychu pynciau'r cwricwlwm maent yn eu mwynhau a manteisio ar ymyriadau mewn grwpiau bach i gynorthwyo â'u hanghenion dysgu neu gymdeithasol. Mae integreiddio i wersi prif ffrwd gam wrth gam yn rhoi amser i'r ysgol gynllunio'n briodol i fodloni anghenion disgyblion, ac yn eu caniatáu i ymgartrefu mewn amgylchedd newydd heb bwysau ychwanegol o ystafell ddosbarth brysur, oedolion newydd a grŵp cyfoedion anghyfarwydd.

111 Caiff y cyfleusterau mewn ysgolion a'r timau staff dynodedig eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n dechrau'n ôl yn y brif ffrwd ar ôl treulio amser mewn UCD, addysg heblaw yn yr ysgol neu gartref.

112 Mewn ysgolion effeithiol, mae'r cyfleusterau cynhwysiant yng nghalon cymuned yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu natur ac ethos yr ysgol yn dda ac yn darparu canolfan ddefnyddiol i gydlynu gwaith amlasiantaeth. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn y ganolfan yn rheolaidd ac yn monitro ansawdd darpariaeth yn dda. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau eu darpariaeth ar y safle a'r meysydd i'w gwella.

113 Yn Ysgol y Creuddyn, nododd arweinwyr fod angen lle tawel ar ddisgyblion a oedd yn aml yn cael trafferth ag amgylchedd prif ffrwd prysur i ymlacio, myfyrio a pharatoi eu hunain am weddill y diwrnod. Er mwyn ymateb i hynny, datblygodd yr ysgol gyfleusterau cefnogol ar y safle, sef 'Y Parlwr', sy'n darparu ystod eang o strategaethau cymorth i ddisgyblion, fel mentora a chwnsela, yn ogystal â threfnu cyrsiau a sesiynau amgen. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael o'r GDD i gynnal 'Y Parlwr', yn ogystal â sicrhau bod digon o staff yn y tîm cynhwysiant i reoli'r ddarpariaeth drwy'r dydd.

114 Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi datblygu continwwm darpariaeth arloesol i gynorthwyo disgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio neu gael eu gwahardd. Mae'r ymateb cam wrth gam yn diffinio'n glir ddull yr ysgol o reoli ymddygiad heriol a hyrwyddo cynhwysiant. Mae datblygu UCD ar y safle, lle caiff disgyblion eu tynnu o wersi prif ffrwd ar gyfer y flwyddyn academaidd, wedi galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth dwys, wedi'i dargedu i ddisgyblion a fyddai wedi cael eu tynnu o'r ysgol fel arall. Mae athrawon yn addysgu ar draws gwersi prif ffrwd a'r cyfleuster ar y safle, mae disgyblion yn cymysgu â'u cyfoedion yn ystod amseroedd egwyl a chinio, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill achrediad pwrpasol ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach neu hyfforddiant. Mae cwricwlwm teilwredig o bynciau craidd a mentora dwys yn cynorthwyo llawer o ddisgyblion i ail-ymgysylltu â'u dysgu a dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd. Mae'r dull hwn sydd wedi ymwreiddio'n dda wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y gwaharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol, a nifer y symudiadau rheoledig.

115 Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion llai effeithiol, mae’r ganolfan gynhwysiant ar y safle yn gweithredu’n ardal ddal. Mae hyn oherwydd na chaiff polisïau ymddygiad eu cymhwyso’n gyson bob tro, nid oes unrhyw lwybrau cyfeirio clir i’r cyfleusterau ac nid yw arweinwyr yn monitro darpariaeth yn ddigon da. Yn aml hefyd, mae llai o ffocws ar nodi a bodloni’r anghenion lles a dysgu sylfaenol sy’n cyfrannu at yr ymddygiad gwael. Yn y cyfleusterau hyn, mae disgyblion yn mynychu’r canolfannau am y rhan fwyaf o’r dydd, dim ond ychydig o gysylltiadau sydd â gwersi prif ffrwd, a chynorthwywyr addysgu neu athrawon nad ydynt yn rhai arbenigol sy’n addysgu disgyblion yn aml. Tra byddant yn mynychu’r cyfleusterau hyn, gwna disgyblion ychydig iawn o gynnydd yn eu dysgu, neu nid ydynt yn dychwelyd i wersi prif ffrwd yn ddigon cyflym, a chaiff rhai ohonynt eu rheoli allan o’r ysgol trwy’r broses ymadawiadau rheoledig.

116 Er bod llawer o awdurdodau lleol yn ariannu costau sefydlu cychwynnol canolfannau cynhwysiant ar y safle, ychydig ohonynt yn unig sy’n monitro ac yn arfarnu pa mor dda mae arweinwyr yn rheoli’r ddarpariaeth, ei hansawdd neu ei heffaith ar wella deilliannau disgyblion. O ganlyniad, nid yw llawer o awdurdodau lleol yn gwybod p’un a yw’r ddarpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr ai peidio neu’n darparu’r gwerth gorau am arian.

117 Mae ychydig o ysgolion yn cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth arloesol ag ysgolion lleol eraill, sy’n gwella profiad symudiad rheoledig i ddisgyblion. Mae gwaith llwyddiannus rhwng ysgolion yn y maes gwaith hwn yn mynnu ymrwymiad gan bob arweinydd i gynnig cyfle i ddisgyblion ddechrau o’r newydd, ac addewid i dderbyn disgyblion sy’n destun symudiad rheoledig, yn ogystal â’u hanfon i ysgolion eraill.

118 Er bod yr awdurdod lleol yn cael gwybod am y symudiad rheoledig, yr ysgolion dan sylw sy’n trefnu, hwyluso a monitro llwyddiant y symudiad. Mae’r ffordd hon o weithio yn arbennig o effeithiol mewn ysgolion sy’n cydweithio’n agos â’i gilydd ar agweddau eraill ar wella ysgolion, fel cynllunio’r cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae gan arweinwyr weledigaeth glir a strategaeth ysgol gyfan i hyrwyddo cynhwysiant. Yn yr ysgolion hyn, mae’r holl arweinwyr yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o fanteision symudiad rheoledig ac, o ganlyniad, maent yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill er lles y disgybl.

119 Mae arweinwyr yn ceisio gwella profiadau disgyblion sy’n destun symudiad rheoledig trwy ddatblygu protocol symudiad rheoledig clir rhwng ysgolion, cymhwyso trothwyon tebyg ar gyfer symudiadau rheoledig a chynllunio opsiynau’r cwricwlwm ar y cyd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Mae prif fanteision trefniadau rhwng ysgolion fel a ganlyn:

- Mae’r holl ysgolion yn y bartneriaeth yn derbyn nifer deg o symudiadau rheoledig mewn blwyddyn academaidd
- Mae arweinwyr yn herio trothwyon, polisïau ac arferion ei gilydd yn rheolaidd
- Mae llai o ‘symudiadau gan rieni’ a chaiff gwybodaeth ei rhannu’n well cyn ac yn ystod symudiad rheoledig
- Mae’r ysgol gartref yn parhau’n gyfrifol am y disgybl trwy gydol y broses ac yn derbyn y disgybl yn ôl os bydd y symudiad rheoledig yn aflwyddiannus
- Mae parhad mewn profiadau dysgu i’r disgybl, lle bynnag y bo hynny’n bosibl

120 Mae Ysgol Emrys ap Iwan wedi datblygu ei phrotocol symudiadau rheoledig rhwng ysgolion ar y cyd â dwy ysgol uwchradd leol sydd wedi'u lleoli mewn awdurdod gwahanol. Mae gan yr ysgol, a'i hysgolion partner, boblogaeth grwydrol uchel oherwydd natur yr ardal. Mae arweinwyr yn y tair ysgol yn gweithio mewn partneriaeth i ostwng nifer y gwaharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol, yn ogystal â nifer y trosglwyddiadau o ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu sbarduno gan rieni. Mae arweinwyr yn adolygu'r rhwystrau lleol rhag symudiadau rheoledig effeithiol ac yn mynd i'r afael â'r materion a nodir ar y cyd. Er enghraifft, mae'r ysgolion yn darparu cerdyn bws i ddisgyblion sy'n destun symudiad rheoledig ac yn rhyddhau staff i gynorthwyo disgyblion yn ystod y cyfnod prawf. Mae'r atebion ymarferol hyn yn cynorthwyo disgyblion yn dda wrth iddynt bontio i ysgol newydd. Er bod yr ysgolion yn cydweithio'n agos â'i gilydd i ddarparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sy'n destun symudiad rheoledig, mae disgyblion yn dewis dychwelyd i'w hysgol gartref cyn diwedd y cyfnod prawf ambell waith. Mae hyn oherwydd bod yr holl ysgolion yn cymhwyso ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion ac yn ymateb yn gyson i ymddygiad heriol. O ganlyniad, nid yw gobaith y disgybl o symud i ysgol lai llym yn cael ei wireddu.

121 Pan fydd trefniadau lleol rhwng ysgolion yn llai effeithiol, nid yw symudiadau rheoledig yn deg ar draws yr ysgolion mewn awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu bod ysgolion penodol yn derbyn nifer uwch o symudiadau rheoledig, tra nad yw eraill yn derbyn unrhyw un yn ystod y flwyddyn academaidd, er iddynt gychwyn symudiadau rheoledig eu hunain. Yn aml, mae hyn yn achosi tyndra diangen rhwng ysgolion, a gall gael effaith negyddol ar ddisgyblion y mae angen iddynt ddechrau o'r newydd.

## Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i rieni, gofalwyr a disgyblion

122 At ei gilydd, mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni neu ofalwyr ar gais am y broses symudiadau rheoledig a gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn yr ardal. Mae'r wybodaeth hon yn helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall y broses symudiadau rheoledig ac, yn aml, yn datrys unrhyw bryderon allai fod ganddynt.

123 Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth partneriaeth annibynnol a diduedd i rieni. Mae hyn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig eu plentyn, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae bron pob awdurdod lleol yn darparu'r gwasanaeth hwn trwy ddarparwr allanol a gomisiynwyd.

124 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae cysylltiadau sefydledig â'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni. Yn aml, bydd swyddogion a gwirfoddolwyr o'r gwasanaeth yn cynrychioli safbwyntiau rhieni ar ystod o baneli cymorth, fel y paneli adnoddau ymddygiad ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn eu helpu i ddeall dull yr awdurdod lleol o hyrwyddo cynhwysiant ac yn gwneud yn siwr eu bod yn rhoi gwybodaeth gyfredol i rieni a gofalwyr am y dewisiadau a'r cymorth sydd ar gael.

125 Mae ychydig iawn o awdurdodau lleol yn cyflogi swyddogion partneriaeth â rhieni a gweithwyr cymorth yn uniongyrchol i helpu rhieni neu ofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am addysg eu plant. Yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, mae gweithiwr cymorth y bartneriaeth â rhieni yn cydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr i ddarparu gwybodaeth gywir a diduedd am ystod yr opsiynau sydd ar gael a'u cynorthwyo trwy brosesau cymhleth, fel asesiadau arbenigol. Yn ogystal, pan fydd eisiau cynorthwyydd rhieni annibynnol ar rieni, bydd yr awdurdod lleol yn darparu'r gwasanaeth hwn hefyd.

126 Yn gyffredinol, mae ysgolion yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni neu ofalwyr am ystod yr opsiynau sydd ar gael iddynt pan fydd perygl i ddisgybl ymddieithrio neu gael ei (g)wahardd. Mewn ysgolion effeithiol, mae cyfleu pryderon yn gynnar yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni a gofalwyr yn barhaus. Yn yr ysgolion hyn, cânt llawer iawn o wybodaeth am gynnydd eu plentyn trwy gyfarfodydd wythnosol yn yr ysgol, negeseuon testun a galwadau ffôn dyddiol. Mae hyn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall yn dda sut i gynorthwyo eu plant a chynllunio ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

127 Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi diweddariadau dyddiol i rieni a gofalwyr am ymddygiad eu plant, nid yw arweinwyr yn cyfleu negeseuon anodd yn ddigon da ac yn brydlon bob tro. Mae hyn yn golygu nad yw rhieni a gofalwyr yn cael digon o amser bob tro i gynllunio'r camau nesaf neu sicrhau trefniadau amgen cyn i symudiad rheoledig gael ei gytuno.

128 Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n hyrwyddo defnyddio'r gwasanaeth partneriaeth yn weithredol â rhieni a gofalwyr mewn cyfarfodydd rhaglenni cymorth bugeiliol ac

wrth wneud penderfyniadau pwysig am symudiadau rheoledig. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu am y gwasanaeth oni bai bod swyddogion yr awdurdod lleol yn eu cyfeirio ato neu os bydd anghydfod yn codi. Mae hyn oherwydd nad yw ysgolion yn deall rôl y gwasanaethau partneriaeth rhieni yn llawn, yn gyffredinol, nac ystod y cymorth buddiol y mae'n ei gynnig i rieni a gofalwyr yn annibynnol ar yr awdurdod lleol.

129 Mae gallu rhieni a gofalwyr i fanteisio ar gyngor ac arweiniad diduedd yn ystod y broses symudiadau rheoledig yn amrywio gormod ledled Cymru ac yn dibynnu gormod ar swyddogion unigol yn gwneud cyfeiriadau ar ran y teulu. Nid yw awdurdodau lleol ac, yn bwysicaf oll, ysgolion yn hyrwyddo argaeledd y gwasanaethau penodol hyn yn ddigon da yn gynnar yn y broses. Yn aml, mae hyn yn golygu y caiff rhieni a gofalwyr eu cyfeirio at y gwasanaethau hyn dim ond pan fydd anghydfod neu anghytundeb rhwng dymuniadau'r ysgol, y disgybl a'r rhieni neu ofalwyr.

130 Yn yr un modd â rhieni a gofalwyr, nid yw disgyblion yn gallu manteisio ar eiriolwyr annibynnol, fel mater o drefn, i gynrychioli eu buddiannau, eu helpu i ddweud yr hyn sydd ei eisiau arnynt neu sicrhau eu hawliau yn ystod symudiadau rheoledig. Mae hyn yn golygu nad yw llais ac anghenion y disgybl wrth wraidd y broses bob tro.

131 Er bod trefniadau ym mhob awdurdod lleol i sicrhau y gall plant neu bobl ifanc fanteisio ar gymorth er mwyn lleisio eu barn mewn perthynas â'u haddysg, gofal neu gynlluniau iechyd, mae cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth hwn yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mewn llawer o ardaloedd, mae disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol neu sy'n destun symudiad rheoledig yn gymwys i gael y cymorth hwn. Mae hyn yn golygu, yn yr ardaloedd hyn, fod gan blant a phobl ifanc hawl i fanteisio ar gyngor ac arweiniad sy'n annibynnol ar yr ysgol a'u rhieni neu ofalwyr.

132 Mewn llawer o awdurdodau lleol, caiff argaeledd y gwasanaethau hyn ei hyrwyddo'n addas. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn cyfeirio plant a phobl ifanc, a chaiff yr argaeledd ei hyrwyddo'n aml ar y wefan gwybodaeth i deuluoedd a phosteri mewn mannau cyhoeddus, fel llyfrgelloedd.

133 Fodd bynnag, er bod bron pob awdurdod lleol yn gwneud ymdrech i gael gwasanaeth gan eiriolwr annibynnol i siarad ar ran disgyblion sy'n destun gwaharddiad ffurfiol, yn aml nid yw hyn yn wir i ddisgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig.

134 Yn ogystal, ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n hyrwyddo'r gwasanaeth eiriolaeth diduedd yn weithredol, yn enwedig yn gynnar yn ystod trafodaethau am symudiadau rheoledig. Mae hyn oherwydd nad yw ysgolion yn llawn gwerthfawrogi pwysigrwydd cael barn disgyblion bob tro, yn enwedig wrth drafod trosglwyddiadau rheoledig neu ymadawiadau rheoledig. Mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion yn cyfeirio at y gwasanaethau hyn yn rheolaidd er mwyn osgoi gwrthdaro neu her.

135 Mae'n well gan y rhan fwyaf o ysgolion ddefnyddio swyddogion yr awdurdod lleol neu eu staff eu hunain i roi cyngor ac arweiniad i ddisgyblion sy'n destun symudiad rheoledig. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, daw staff cymorth cynhwysiant a disgyblion i adnabod ei gilydd yn dda dros amser. Yn aml, daw'r

oedolion hyn yn amhrisiadwy i'r disgybl, yn enwedig yn ystod cyfarfodydd anodd a chymhleth. Yn aml, maent yn eiriolwyr i'r disgybl ac yn darparu cymorth a chyngor gwerthfawr iawn ar ystod o faterion sy'n gofidio'r disgybl. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn rhyddhau staff cymorth i ymweld â'r ysgol newydd gyda'r disgybl ac i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod prawf.

## Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio dadansoddiad o ymatebion i arolwg o awdurdodau lleol ac ymweliadau ag wyth o awdurdodau lleol, ysgolion uwchradd ac UCDau. Yn ogystal, rhannodd SNAP ganfyddiadau ei adroddiad blynyddol ar brofiadau o gynorthwyo teuluoedd a disgyblion sy'n destun symudiad rheoledig.

**Yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon oedd:**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir y Fflint
Dinas a Sir Abertawe

**Yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon oedd:**

Ysgol Bro Tawe, Abertawe
Ysgol Bryn Elian, Conwy
Ysgol Cil-y-Coed, Sir Fynwy
Ysgol Coedcae, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent
Ysgol Uwchradd Esgob Hedley, Merthyr Tudful
Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
Ysgol Uwchradd y Fflint, Sir y Fflint

**Yr unedau cyfeirio disgyblion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon oedd:**

Addysg heblaw yn yr ysgol, Merthyr Tudful
Addysg heblaw yn yr ysgol, Sir Fynwy
Canolfan Addysg Penmaenrhos, Conwy
Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin
Canolfan yr Afon, Blaenau Gwent
Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn, Caerdydd
Uned Cyfeirio Disgyblion Dinas a Sir Abertawe, Abertawe

Yn ystod eu hymweliadau ag awdurdodau lleol, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion, bu arolygwyr:

- yn cyfweld ag arweinwyr ysgolion, athrawon â gofal a swyddogion awdurdodau lleol
- yn adolygu ystod o ddogfennau gan ysgolion ac awdurdodau lleol, gan gynnwys adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau datblygu
- yn cyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ddisgyblion

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **AWPU** | Uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl. Daw mwyafrif y cyllid a ddosberthir i'r ysgol trwy gyllid AWPU. Caiff lefel y cyllid ei harwain gan nifer y disgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol yng nghyfrifiad mis Ionawr. |
| **Cofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA)** | Mae gan blentyn a roddir ar y gofrestr AAA angen addysgol arbennig dynodedig, fel y diffinnir gan y cod ymarfer AAA. |
| **CPYDd** | Cymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| **EOTAS** | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| **Grant datblygu disgyblion (GDD)** | Grant blynyddol sy'n rhoi cymorth ariannol i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad. |
| **LAC** | Plant sy'n derbyn gofal – plant sydd dan ofal yr awdurdod lleol |
| **NEET** | Heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant |
| **Rhaglen cymorth bugeiliol (RhCB)** | Rhaglen yn yr ysgol sydd â'r nod o helpu plentyn i wella ei fedrau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Bydd y rhaglen yn nodi targedau manwl a phenodol i'r plentyn weithio tuag atynt, a dylai gynnwys y plentyn a'r rhieni yn y broses ddrafftio. |
| **SEBD** | Term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n cael eu profi gan blant a phobl ifanc. |
| **Trothwy lefel 1** | Nifer o gymwysterau lefel 1 sy'n gyfwerth â phump TGAU gradd D-G. |
| **Trothwy cynwysedig lefel 2 (L2+)** | Nifer o gymwysterau lefel 2 sy'n gyfwerth â phump TGAU gradd A*-C, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. |
| **Ysgol gartref** | Yr ysgol wreiddiol |
| **Ysgol sy'n derbyn** | Yr ysgol a nodwyd sy'n derbyn y symudiad rheoledig. Mae'r ysgol hon yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb wedi i'r cyfnod prawf gael ei gwblhau'n llwyddiannus. |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Estyn (2012) *Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arolwg-or-trefniadau-ar-gyfer-rheoli-lles-ac-ymddygiad-disgyblion-mewn-unedau [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Estyn (2014) *Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-medi-2014 [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Estyn (2015a) *Arfer effeithiol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arfer-effeithiol-o-ran-gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-cynradd-mehefin-2015 [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Estyn (2015b) *Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-arolwg-arfer-dda-mehefin-2015 [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Estyn (2016) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/contents [Cyrchwyd 20 Chwefror 2018]

Reid, K. (2008) *Adroddiad ar yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/dcells/publications/publications/reports/3773934/nbarreport?lang=cy [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018] (Saesneg yn unig)

UNICEF (1990) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* UNICEF UK: Llundain. [Ar-lein]. Ar gael o: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?_ga=2.133037966.189025911.1516785913-2111545197.1489681381 [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018] (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/publications/090415rightstoactioncy.pdf [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/110301effectivecy.pdf [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2014) *Gwaharddiadau o ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/exclusions-schools/?tab=previous&skip=1&lang=cy [Cyrchwyd 8 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2015) *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/010415-exclusion-from-schools-and-pupil-referral-units-cy.pdf [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Welsh Government (2016) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-cy.pdf [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017) *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2015/16.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170928-permanent-fixed-term-exclusions-from-schools-2015-16-cy.pdf [Cyrchwyd 24 Ionawr 2018]